SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU**
**A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME**
**COMMISSIONER** NORTH WALES

## 2020/2021

# ADRODDIAD BLYNYDDOL



WWW.NORTHWALES-PCC.GOV.UK

@NorthWalesPCC

@NorthWalesPCC

northwalesopcc

# CYNNWYS


3 Cyflwyniad

4 Gweithio mewn partneriaeth effeithiol

12 Making a difference

19 Delivering the role of the Police and Crime Commissioner

24 A year of engagement

29 Police and Crime Plan Strategic Priorities - 2020/21 Progress Report

37 Summary of Outcomes

48 Funding and Finance




# CYFLWYNIAD

Croeso i fy Adroddiad Blynyddol 2020-2021, sy'n cwmpasu'r cyfnod o fis Ebrill 2020 i fis Mawrth 2021[1]

Dyma fy adroddiad blynyddol olaf fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd (CHTh) yn dilyn fy mhenderfyniad i beidio â cheisio fy ailethol yn etholiad y CHTh oedd i'w gynnal ar 6 Mai 2021.

Aeth y DU i gyfnod clo ar 23 Mawrth 2020 o ganlyniad i'r pandemig Coronafeirws (Covid-19). Yn fy marn i, mae Covid-19 wedi cyflwyno'r her fwyaf y mae Heddlu Gogledd Cymru wedi'i hwynebu erioed. Felly, mae'n glod mawr iddynt fod 2020/21 yn flwyddyn lwyddiannus arall i Heddlu Gogledd Cymru sy'n parhau i ddarparu gwasanaeth plismona rhagorol i'n cymunedau yn ystod amseroedd heriol. Fel y mae'r adroddiad blynyddol hwn yn amlygu, cyflawnwyd cymaint yn ystod cyfnod hynod heriol.

Ar ddechrau'r adroddiad blynyddol hwn rwyf am fynegi fy niolch diffuant a thalu teyrnged i holl swyddogion, staff, Swyddogion Gwirfoddol a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi ymateb mor gadarnhaol i'r amgylchiadau rhyfeddol hyn. Hoffwn hefyd estyn fy niolch i gymunedau gogledd Cymru am gadw at y rheoliadau a roddwyd ar waith a'u cefnogaeth i ymateb yr Heddlu i'r argyfwng.

Yn ogystal ag ymateb Covid-19, mae'r adroddiad blynyddol hwn unwaith eto'n rhoi diweddariad ar y cynnydd cyffredinol yn erbyn cyflawni blaenoriaethau strategol fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Cafodd fy Nghynllun ei lywio gan ystod eang o wybodaeth sy'n cael ei hadlewyrchu mewn pum maes blaenoriaeth allweddol:

- **Cam-drin Domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern**
- **Troseddau Rhywiol**
- **Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol**
- **Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel**

> “
> ***Ar ddechrau'r adroddiad blynyddol hwn rwyf am fynegi fy niolch diffuant a thalu teyrnged i holl swyddogion, staff, Swyddogion Gwirfoddol a gwirfoddolwyr Heddlu Gogledd Cymru sydd wedi ymateb mor gadarnhaol i'r amgylchiadau rhyfeddol hyn. Hoffwn hefyd estyn fy niolch i gymunedau gogledd Cymru am gadw at y rheoliadau a roddwyd am ei waith a'u cefnogaeth i ymateb yr Heddlu i'r argyfwng.***

Er fy mod yn rhoi pwys cyfartal i bob un o'r pum blaenoriaeth strategol, ond unwaith eto amlygir y thema gyffredinol o 'leihau cam-fanteisio troseddol ar bobl fregus' yn yr adroddiad drwyddi draw.

Mae ysgrifennu'r adroddiad blynyddol hwn wedi rhoi cyfle i mi fyfyrio ar fy nghyfnod fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd dros y 5 mlynedd diwethaf. Wrth i mi baratoi i adael y swydd rwy'n falch iawn o gyflawniadau niferus y 5 mlynedd diwethaf. Ac rwy'n ddiolchgar i gynifer o bobl sydd wedi fy nghynorthwyo yn ystod yr amser hwn ac wedi sicrhau ei fod yn gyfnod mor llwyddiannus i Heddlu Gogledd Cymru, Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'n partneriaid. Rwy'n dymuno llwyddiant parhaus iddynt i gyd yn y dyfodol.

[1]Gellir cynnwys digwyddiadau o bwys sydd wedi digwydd rhwng 1 Ebrill 2021 ac amser ysgrifennu yn yr adroddiad hwn hefyd.

# GWEITHIO MEWN PARTNERIAETH EFFEITHIOL

Mae nifer o'r heriau niferus yr wyf yn eu hwynebu fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn rhai na all yr heddlu fynd i'r afael â hwy ar eu pennau eu hunain ac mae angen gwaith partneriaeth arloesol ac effeithiol er mwyn gallu gwneud gwahaniaeth gwirioneddol.

Mae gennyf **dîm bach o staff ymroddedig** sy'n gweithio ochr yn ochr â mi a'r Heddlu i sicrhau bod y Cynllun Heddlu a Throsedd yn cael ei gyflenwi a bod pob un o'r dyletswyddau statudol sydd gennyf yn cael eu cyflawni. Mae'r tîm yn cynnwys dau swyddog statudol, sef y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddog Cyllid, a staff cymorth sy'n arbenigo ym meysydd ymchwil, polisi, llywodraethu, cyllid, comisiynu a chyfathrebu. Ni ryddheir gwybodaeth yn aml am lawer o'r dyletswyddau sy'n cael eu cyflawni, er enghraifft ymateb i adroddiadau Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC), Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth, trefnu tribiwnlysoedd apêl yr heddlu, hwyluso cynadleddau, recriwtio a chynnal Pwyllgor Archwilio yn ogystal â recriwtio Aseswyr Annibynnol ac Ymwelwyr y Ddalfa. Mae manylion llawn y strwythur staffio ar gael ar fy ngwefan [gwefan].

Ar gyfer y cyfnod adrodd llawn eleni, mae Heddlu Gogledd Cymru a'u hasiantaethau partner wedi bod yn ymateb i'r pandemig COVID 19. O'r cychwyn, mi wnaeth y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Sacha Hatchett, fel Cadeirydd y Fforwm Cydnerthedd Lleol mewn amseroedd mwy arferol, ymgymryd â rôl Cadeirydd y Grŵp Cydgysylltu Strategol i ymateb i COVID 19. Mae'r Grŵp Cydgysylltu Strategol yn cynnwys uwch swyddogion gweithredol o asiantaethau arweiniol, gan gynnwys Iechyd, Awdurdodau Lleol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ymhlith eraill. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi chwarae rhan allweddol hefyd yn genedlaethol yng Nghymru, gyda'r Prif Uwch-arolygydd Nigel Harrison yn Cadeirio cyfarfod Aur Cymru Gyfan ar blismona ac ymgysylltu â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ar hyd a lled y wlad i sicrhau ymateb cydgysylltiedig.

Ar lefel dactegol, bu 30 o asiantaethau a mwy yn cyfrannu i'r ymateb cydgysylltiedig i'r pandemig, gyda'r grŵp Cydgysylltu Strategol wedi'i gadeirio hefyd gan Brif Arolygydd o Heddlu Gogledd Cymru. Mewn blwyddyn heriol, fe ymatebodd y swyddogion a'r staff yn rhagorol mewn amgylchiadau anodd i gefnogi asiantaethau partner i sicrhau bod y cyhoedd yn gallu deall a chydymffurfio â'r rheoliadau a oedd yn newid yn gyson yn ystod y flwyddyn.

Yn ogystal â'r adnoddau rheng flaen a ddefnyddiwyd i ymateb i ddigwyddiadau o ddydd i ddydd, bu uwch swyddogion ac aelodau o staff o Heddlu Gogledd Cymru yn ymwneud â phob agwedd o'r ymateb, gyda rhai enghreifftiau allweddol yn cynnwys; cydgysylltu gweithgarwch gorfodi gyda phartneriaid, arwain cysylltiadau â'r cyfryngau, cefnogi'r sector gwirfoddol drwy'r Grŵp Gwytnwch Cymunedol, cydgysylltu'r ddarpariaeth offer amddiffyn personol (PPE) ar draws asiantaethau a chefnogi iechyd fel yr ymatebwr arweiniol i'r argyfwng.

Ac ni ddylem anghofio ein gwirfoddolwyr, nid dim ond swyddogion amser llawn a staff sydd wedi chwarae rolau allweddol, gyda'n cwnstabliaeth arbennig yn ymrwymo miloedd o oriau eleni, yn darparu presenoldeb gweladwy a chalonogol yn ein cymunedau a gorfodi cyfyngiadau pan oedd achosion o dorri'r rheolau.

Mae Trais Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i fod yn flaenoriaethau allweddol yn fy Nghynllun Mae gwaith y Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVA) a'r Cynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVA) yn parhau i fod yn allweddol er mwyn sicrhau bod dioddefwyr y troseddau ffiaidd hyn yn derbyn y cymorth maent yn ei haeddu ym mhob cam o'r system cyfiawnder troseddol.

Cyn Ebrill 2020, darparwyd y gwasanaeth IDVA[2] yng Ngogledd Cymru gan nifer o ddarparwyr gwasanaeth arbenigol gwahanol ac fe arweiniodd hyn at anghysondeb yn y ddarpariaeth, gan gynnwys prosesau gweithredu, a'r amseroedd y gellir cael mynediad at y gwasanaeth. Yn 2019, fe gomisiynodd Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched a Cham-drin Domestig wasanaeth a oedd yn fwy cyson a chydlynus wrth barhau i gynnal arbenigedd lleol hefyd. Dechreuodd y gwasanaeth newydd ar 1 Ebrill 2020 ac mae'n cael ei gynnig ar draws chwe ardal awdurdod lleol, ac mae'n cael ei ddarparu gan Gorwel yng Ngwynedd ac Ynys Môn a'r Uned Diogelwch Cam-drin Domestig (DASU) Gogledd Cymru yn Wrecsam, Sir y Fflint, Sir Ddinbych a Chonwy. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar sail 24/7 gyda'r IDVA yn gweithio ar sail ranbarthol er mwyn gallu darparu gwasanaeth gyda'r nos ac ar benwythnosau. Datblygwyd y rota hwn gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod pob Swyddog Cam-drin Domestig yn ymwybodol pa IDVA sy'n gweithredu pryd. Mae hyn yn golygu bod y dioddefwr yn derbyn gwasanaeth di-dor a chyson, waeth beth yw eu lleoliad daearyddol. Deuddeg mis ers dechrau'r contract newydd, rwy'n hapus iawn gyda'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu yn awr i ddioddefwyr ac yn ddiolchgar iawn am ymateb cadarnhaol y ddwy asiantaeth i'r pandemig Covid-19 a oedd yn lleihau'r effaith ar ddioddefwyr a goroeswyr ar hyd a lled Gogledd Cymru.

Cyn 2020 roedd y gwasanaeth hwnnw a'n dulliau o fynd i'r afael â Thrais Domestig a Thrais Rhywiol yn fwy cyffredinol, yn cael ei reoli drwy'r Bwrdd Strategol Trais yn Erbyn Merched a Cham-drin Domestig (VAWDASV) ac yn cael ei gadeirio gan fy Mhrif Weithredwr.



Gwnaed newidiadau i dirlun partneriaeth strategol Gogledd Cymru yn 2020 sy'n effeithio'n uniongyrchol ar VAWDASV. Canfu Adolygiadau Lleol Gogledd Cymru, a gynhaliwyd gan Uned Trais a Bregusrwydd y Swyddfa Gartref yn 2019 nad oedd y strwythurau partneriaeth rhanbarthol yn glir ac argymhellwyd bod angen rhesymoli'r strwythurau presennol. Rwy'n falch bod Heddlu Gogledd Cymru wedi cyfrannu'n helaeth at y gwaith partneriaeth pwysig hwn gyda'r Dirprwy Brif Gwnstabl yn arwain hyn gyda'r Cynghorydd Hugh Jones ar ran y bartneriaeth ehangach. Yn dilyn trafodaethau a chyfres o weithdai, nodwyd pedwar bwrdd strategol i ddisodli'r naw ar oedd mewn grym:

- **Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel**
- **Bwrdd Cynllunio Ardal**
- **Bwrdd Cyfiawnder**
- **Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio**

[2] Mae IDVA yn gweithio i fynd i'r afael â diogelwch pawb sy'n wynebu risg uchel o drais a cham-drin domestig gan bartner agos, cyn-bartneriaid ac aelodau'r teulu i sicrhau eu diogelwch hwy a diogelwch eu plant. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda dynion a merched.

Cynhaliwyd y Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio ei gyfarfod cyntaf o bell ym mis Medi 2020 ac fe ddisodlodd y Bwrdd VAWDASV a'r Bwrdd Caethwasiaeth Fodern rhanbarthol. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae Strategaeth Bregusrwydd a Cham-fanteisio gyntaf Gogledd Cymru ar fin cael ei chymeradwyo a'i chyhoeddi. Fy Mhrif Weithredwr sy'n cadeirio'r bwrdd ac er bod yr agenda yn heriol ac eang iawn, mae'n darparu cyfle rhagorol i gydweithredu a chydweithio'n agosach yn y dyfodol er mwyn diogelu'r aelodau mwyaf agored i niwed ein cymdeithas ymhellach.

Mae Prosiect Medusa yn ymgyrch barhaus sy'n cael ei harwain gan Heddlu Glannau Merswy a sefydlwyd i fynd i'r afael â **Llinellau Cyffuriau** a cham-fanteisio troseddol ar blant. Mae'r ymgyrchoedd ym Mhrosiect Medusa yn galw am gydweithrediad rhwng gwahanol ardaloedd heddlu ac mae Heddlu Gogledd Cymru wedi bod yn cydweithio'n agos gyda heddlu Glannau Merswy a heddluoedd eraill er mwyn manteisio ar wahanol dactegau ymyrryd.

Bu nifer o ymgyrchoedd llwyddiannus yng Ngogledd Cymru, sydd wedi arwain at nifer sylweddol o bobl yn cael eu harestio, atafaeliadau arian a chyffuriau ac yn bwysig, diogelu plant a phobl eraill sy'n agored i niwed drwy ein dull amlasiantaeth. Mae cymunedau Gogledd Cymru wedi elwa o nifer o fentrau partneriaeth llwyddiannus sy'n ymwneud â 'cogio' (cuckooing) a chamddefnyddio cyffuriau, i helpu i fynd i'r afael â gwendidau yn ein cymuned o ganlyniad i gyflenwadau cyffuriau Llinellau Cyffuriau. Bydd y gwaith cydweithredol hwn yn parhau i ddatblygu er mwyn sicrhau'r lefel uchaf o ddiogelwch i'n cymunedau.

Mae'r **Cydbwyllgor Archwilio** yn bwyllgor sy'n cynnwys pedwar aelod annibynnol ac elfen allweddol o lywodraethu corfforaethol y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Gogledd Cymru. Diben y Cydbwyllgor Archwilio yw darparu cyngor annibynnol a sicrwydd i mi a'r Prif Weithredwr ar ddigonolrwydd y fframweithiau llywodraethu a rheoli risgiau, yr amgylchedd rheoli mewnol, ac adroddiadau ariannol, gan helpu i sicrhau bod trefniadau sicrwydd effeithlon ac effeithiol ar waith. I'r perwyl hwn, mae'r Pwyllgor wedi'i alluogi ac mae'n ofynnol iddo oruchwylio, a darparu adolygiad annibynnol o, effeithiolrwydd fframweithiau llywodraethu, moeseg, rheoli risg a rheoli, adroddiadau ariannol a phroses lywodraethu flynyddol ac archwiliadau mewnol ac allanol Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu. Rwy'n ddiolchgar am waith a chefnogaeth barhaus y Pwyllgor a'r sicrwydd a roddwyd. Mae dau aelod o'r Pwyllgor wedi gadael yn ddiweddar ar ôl gwasanaethu eu tymor ac rwy'n ddiolchgar iddynt am eu cefnogaeth a'u gwaith caled dros y tair blynedd ddiwethaf. Cafodd tri aelod newydd eu recriwtio yn ddiweddar sy'n golygu bod gan y Pwyllgor ei bum aelod llawn unwaith eto ac rwy'n siŵr y bydd eu profiad a'u gwybodaeth yn fuddiol iawn i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Heddlu yn y blynyddoedd i ddod.

Mae'r **Bwrdd Craffu ar Safonau Proffesiynol (PSSB)** yn monitro a chraffu y ffyrdd y mae Heddlu Gogledd Cymru yn ymdrin â chwynion a honiadau o gamymddwyn er mwyn i mi allu bod yn fodlon bod y trefniadau a'r prosesau sydd ar waith yn briodol ac effeithiol. Yn ystod 2020/21, cafodd y Bwrdd ei gadeirio gan fy Mhrif Weithredwr.

Yn Adroddiad Blynyddol y llynedd dywedais y byddai **diwygiadau'n** cael eu gwneud i **gwynion am yr heddlu** a fy mod yn gweithio gyda Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau bod y newidiadau hyn yn cael eu cyflwyno'n llyfn ac effeithiol. Cynyddodd cyfrifoldebau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn cysylltiad â chwynion am yr heddlu o 1 Chwefror 2020. Mae fy nyletswyddau yn cynnwys bod y Corff Adolygu Perthnasol yn awr ar gyfer rhai o gwynion am yr heddlu a dyletswydd hefyd i sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl broses gwynion effeithiol ac effeithlon ar waith. Roedd y broses o adolygu cwynion am yr heddlu yn ychwanegiad sylweddol i faich gwaith a chyfrifoldebau swyddfa'r Comisiynydd, felly ystyriwyd a oedd gan strwythur y swyddfa y capasiti a'r sgiliau i ymgymryd â'r gwaith. Ystyriwyd y cynnig y gallai aelod o staff ymgymryd â'r rôl hon fel rhan o'u dyletswyddau, ond nid oes gan staff sy'n cael eu cyflogi gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd y wybodaeth weithredol am blismona i wneud y gwaith ar gyfer Gogledd Cymru neu ar sail Cymru gyfan, ond am nad oeddem yn gallu rhagweld y lefel o adolygiadau y byddwn yn eu derbyn, nid oeddem yn gwybod faint o unigolion y byddai angen i ni eu penodi. Felly, roedd yn ddarbodus i ni ofyn i ymgynghorydd annibynnol wneud y gwaith am y cyfnod cychwynnol.

Roedd Comisiynwyr Heddlu a Throsedd Gwent a Dyfed Powys o'r un farn â Gogledd Cymru, mai rhoi'r gwaith o gynnal yr Adolygiadau ar





gontract allanol i ddechrau fyddai'r opsiwn mwyaf hyfyw yn ariannol a byddai'n darparu dealltwriaeth o lefel y galw a'r gwaith cyn gwneud unrhyw benderfyniadau parhaol. O'r herwydd, cyflwynodd y tair ardal broses dendro ar y cyd i gynnal yr adolygiadau ar gontract allanol; cafodd y broses dendro ar y cyd ei harwain gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throsedd Dyfed Powys. Dyfarnwyd y contract i Sancus.

Rhwng 1 Chwefror 2020 a 31 Mawrth 2021 mae fy swyddfa wedi derbyn cyfanswm o 45 o geisiadau i adolygu canlyniad cwynion am yr heddlu. Mae'r rheoliad newydd ynghylch cwynion am yr heddlu yn darparu un elfen yn unig i'r Corff Adolygu Perthnasol ei hystyried a'r elfen honno yw a oedd canlyniad y gŵyn am yr heddlu yn rhesymol a chymesur. Os bydd canlyniad yr Adolygiad yn datgan bod y canlyniad a ddarparwyd gan yr Heddlu yn rhesymol a chymesur, nid yw'r Adolygiad yn cael ei gadarnhau. Os ystyrir bod unrhyw elfen o'r Adolygiad nad yw'n rhesymol neu'n gymesur, bydd yr Adolygiad yn cael ei gadarnhau.

O'r 45 Adolygiad hynny, aseswyd bod 5 yn Annilys, Cadarnhawyd 7 Adolygiad ac ni chafodd 29 eu Cadarnhau, mae 4 achos heb eu datrys ar hyn o bryd. O'r 40 cais dilys am Adolygiad a dderbyniwyd, atgyfeiriwyd 38 ohonynt i Sancus i'w hasesu ac aed i'r afael â 7 ohonynt yn fewnol. Mae'r broses adolygu wedi creu gwaith ychwanegol i'r Prif Weithredwr fel y corff adolygu perthnasol dirprwyedig ac i'r Swyddog Gweithredol sy'n rheoli ac yn darparu sicrwydd ansawdd i'r gwaith, nid yw eu costau wedi'u mesur ond yn hytrach maent wedi'u hymgorffori yn eu dyletswyddau. Ystyriwyd bod penodi ymgynghorwyr annibynnol i gynnal elfen ymchwiliadol yr Adolygiadau yn darparu gwerth am arian, mae'r gwasanaeth a ddarperir o safon uchel ac mae wedi bod yn hollbwysig i Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd er mwyn sicrhau fy mod yn cyflawni fy nyletswyddau statudol.

Un o'r ffyrdd yr wyf yn ceisio sicrhau System Cyfiawnder Troseddol effeithiol ac effeithlon yng Ngogledd Cymru yw drwy gadeirio'r **Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol**, sy'n cynnwys asiantaethau partner allweddol sy'n gweithio yn y system cyfiawnder troseddol – e.e. yr heddlu, Gwasanaeth Erlyn y Goron (CPS) llysoedd, carchardai, gwasanaethau prawf ac yn y blaen.

> **"*Gweledigaeth gyffredinol y Bwrdd yw Darparu fforwm amlasiantaeth er mwyn cyfnewid gwybodaeth, darparu arweinyddiaeth a llywodraethiant ac i nodi a goresgyn rhwystrau er mwyn darparu Gwasanaeth Cyfiawnder Troseddol mwy effeithlon ac effeithiol yng Ngogledd Cymru, sy'n canolbwyntio ar anghenion dioddefwyr a phobl agored i niwed (gan gynnwys defnyddwyr cyffuriau)".***

Mae'r argyfwng COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar y System Cyfiawnder Troseddol ac mae ôl-groniad sylweddol o achosion yn aros i gael eu clywed mewn llysoedd troseddol yng Ngogledd Cymru. Fodd bynnag, mae'r ôl-groniad hwn wedi'i leihau yn sylweddol o ganlyniad i'r bartneriaeth effeithiol sy'n bodoli rhwng yr holl asiantaethau cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru.

Ar 23 Mawrth 2020, fe ohiriodd HMCTS pob sesiwn llys, gwrandawiadau a threialon am yr ychydig fisoedd canlynol ac eithrio achosion remand. Bu Uned Gofal Tystion Heddlu Gogledd Cymru yn cysylltu'n agos â'u cydweithwyr yng Ngwasanaeth Erlyn y Goron a dechrau dad-rybuddio pob tyst mewn treialon a oedd wedi'u rhestru rhwng 23 Mawrth a 30 Ebrill. Roedd tua 250 o achosion wedi'u rhestru ar gyfer treialon yn ystod y cyfnod hwn. Roedd yna wrandawiadau dedfrydu, achosion a oedd wedi'u rhestru ar gyfer gwrandawiadau crybwyll a gwrandawiadau eraill a oedd angen diweddariadau gan dystion.

Yna cafodd pob achos gwrandawiad cyntaf eu gohirio tan ar ôl 15 Mehefin. Cyflwynwyd llysoedd arbennig i ymdrin â gwrandawiadau remand. Erbyn diwedd mis Mawrth, sefydlwyd mai'r Wyddgrug fyddai'r unig lys o'r fath ar gyfer ein hardal, a fyddai'n ymdrin â gwrandawiadau remand a materion brys eraill y llys.

Erbyn mis Mai 2020 roedd 1200 o achosion yn y system cyfiawnder troseddol yng Ngogledd Cymru a oedd yn aros am wrandawiad cyntaf yn y llysoedd. Fodd bynnag, mae'r Uned Gofal Tystion yn amcangyfrif mai'r llwyth achosion erbyn Mawrth 2021 oedd 745, o gymharu â'r nifer uchaf o lwyth achosion o 1267 ym mis Gorffennaf 2020.

Yn ogystal â'r ôl-groniad roedd yna nifer o faterion cyfiawnder troseddol, o ganlyniad i'r pandemig, yr oedd angen eu datrys mewn partneriaeth. Roedd rhai o'r materion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Nid oedd y Bwrdd Iechyd yn gallu prosesu unrhyw geisiadau am dystiolaeth feddygol;
- Anawsterau yn cynnal gwrandawiadau remand drwy gyswllt fideo oherwydd diffyg o ran y dechnoleg angenrheidiol;
- Anawsterau yn nodi ystafelloedd llys amgen;
- Pan ailddechreuodd gwrandawiadau a threialon, bu'n rhaid i rai dioddefwyr a thystion aros am gyfnodau hir o amser y tu allan i adeiladau llys oherwydd y rheolau cadw pellter cymdeithasol;
- Mwy o ddiffynyddion yn pledio'n ddieuog.

Mae perfformiad Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn parhau i fod yn gryf er gwaethaf yr heriau parhaus, sy'n adlewyrchiad o'r ymrwymiad ar draws y gwasanaeth. Mae'r gymhareb derbynebau i'w cwblhau (cyfradd 'R') yn llai nac 1, sy'n dangos bod Gwasanaeth Erlyn y Goron yn gwaredu mwy o achosion nac y maent yn eu derbyn.

Mae cynrychiolwyr o fy swyddfa wedi bod yn cyfarfod yn rheolaidd ar hyd y flwyddyn gyda'r Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, y Weinyddiaeth Gyfiawnder, y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cenedlaethol a Grŵp Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan i drafod materion sy'n cynnwys ailagor y llysoedd a'r her o sicrhau bod Dioddefwyr a Thystion yn parhau i ymgysylltu wrth i amseroedd llys barhau i gael eu hymestyn.

Yn ystod dyddiau cynnar y pandemig, galwais am asesiad o effaith yr ôl-groniad ar ddioddefwyr a thystion yn genedlaethol ac am ddata cynhwysfawr a fyddai'n ein galluogi i asesu graddau'r broblem o ôl-groniadau o achosion.

Bûm yn gweithio gyda phartneriaid, yng Ngogledd Cymru ac ar sail Cymru gyfan, i ddatblygu cynlluniau i sicrhau bod y System Cyfiawnder Troseddol yn lleol ac yn genedlaethol, yn gallu adfer o effaith yr argyfwng COVID-19. Cytunwyd yn gynnar y dylai'r camau a gymerwyd ganolbwyntio ar gynllunio adferiad y system cyfiawnder troseddol leol fel ffordd o liniaru datblygiad rhai o'r risgiau strategol.

Fe wnaethom ymgysylltu â phartneriaid hefyd i sicrhau bod protocolau newydd fel y Protocol Cyhuddo newydd, y protocol newydd Cyfweliadau'r Heddlu yn y Ddalfa, y Cynllun Rhyddhau Carcharorion yn Gynnar a'r protocol newydd Terfyn Amser yn y Ddalfa, yn cael eu gweithredu'n effeithiol yng Ngogledd Cymru ac yn genedlaethol.

Cynhyrchwyd Cynllun Ymateb i COVID-19 Glasbrint Troseddwyr Benywaidd Cymru Gyfan hefyd gyda chefnogaeth gan bob partner ar y Bwrdd Merched mewn Cyfiawnder yng Nghymru, y mae rhai aelodau o fy nhîm yn eistedd arno. Diben y Cynllun hwn oedd cefnogi ymateb gweithredol COVID-19 i fenywod Cymru a darparu un farn strategol ar faterion hollbwysig a blaenoriaethau a oedd yn datblygu a oedd yn berthnasol i fenywod yn y system cyfiawnder troseddol yn ystod COVID-19. Cyflwynwyd y Cynllun i ddechrau drwy gyfarfod Glasbrint Troseddwyr Benywaidd bob pythefnos gyda chefnogaeth drwy Fwrdd Merched mewn Cyfiawnder Cymru.

Daeth y Cod Ymarfer newydd i Ddioddefwyr i rym ar 1 Ebrill 2021. Mae aelodau fy nhîm wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid ar hyd y flwyddyn yn lleol a chenedlaethol i sicrhau bod dioddefwyr yng Ngogledd Cymru yn derbyn yr hawliau a restrir yn y 12 hawliad newydd, a bod gennym systemau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod newydd.

Mae'r defnydd priodol o Warediadau Y Tu Allan i'r Llys wedi bod yn bwysicach nac erioed yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cyfiawnder amserol, a bod nifer yr ôl-groniadau o achosion llys mor isel â phosibl. O ganlyniad, mae gwaith Panel amlasiantaeth Gwarediadau y Tu Allan i'r Llys Gogledd Cymru, i fonitro defnydd Heddlu Gogledd Cymru o'r gwarediadau sydd ar gael, fel dewis amgen i erlyn, wedi bod yn hollbwysig er mwyn sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn gwasanaethau o ansawdd uchel, a bod digwyddiadau'n cael eu gwaredu'n briodol. Mae aelodau o fy nhîm yn eistedd ar y Panel Craffu ac mae adroddiad yn cael ei gynhyrchu i adrodd ar y canfyddiadau/gwybodaeth sefydliadol a ddysgwyd o Gyfarfodydd y Panel Craffu i Fwrdd Gweithredol Strategol Heddlu Gogledd Cymru, sy'n cael ei gadeirio gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, ac i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Rwy'n parhau i ddarparu cyllid ar gyfer **Prosiect Teuluoedd sydd wedi'u Heffeithio gan Garchariad** Gogledd Cymru. Diben y prosiect amlasiantaeth hwn yw gwella'r ddealltwriaeth o'r sefyllfa bresennol sy'n wynebu plant a theuluoedd sydd wedi'u heffeithio gan garchariad yng Ngogledd Cymru, nodi'r plant hyn a chynyddu mynediad at gymorth. Mae fy nhîm yn mynychu cyfarfodydd Grŵp Llywio'r prosiect a gynhelir ddwywaith y flwyddyn ac maent yn fy sicrhau bod y Prosiect yn gwneud cynnydd gwych. Rydym yn agosach at sicrhau proses adnabod a chymorth systematig ar gyfer y plant a'r teuluoedd hyn o Ogledd Cymru, yn y ddalfa ac yn y gymuned, a sicrhawyd y cynnydd hwn drwy ddull cwbl gydweithredol ac arloesol.

Mae mecanwaith adnabod y Gwasanaeth Prawf (o fewn yr Awdurdodau Lleol) yn hollbwysig er mwyn nodi'r plant sydd wedi'u heffeithio gan garchariad rhiant, yn ogystal â'r broses atgyfeirio adnabod yn yr ystâd carchardai a chwblhau gwaith Cynllun Braenaru Ynys Môn.

Derbyniodd Ashley Rogers rôl Cadeirydd yr **Ymddiriedolaeth Heddlu Gogledd Cymru a'r Gymuned (PACT)** cyn i'r cyfyngiadau symud ddod i rym a'r heriau y mae'r pandemig wedi'u cyflwyno i'n cymunedau. Yn amlwg, mae hyn wedi cyflwyno llawer o heriau i PACT a'r bwrdd ymddiriedolwyr, yr wyf yn aelod ohono, yn arbennig yr angen i gyflwyno cyfarfodydd rhithiol a'r dechnoleg sy'n gysylltiedig â hynny.

Er fod nifer o'u gweithgareddau arferol wedi'u gohirio neu eu canslo yn 2020 - gan gynnwys y rhaglen ysgolion Cyfiawnder mewn Diwrnod a Gwobrau'r Uchel Siryf - yn ystod 2020/21 mae PACT wedi parhau i gefnogi grwpiau cymunedol lleol a Thimau Plismona yn y Gymdogaeth ar hyd y cyfnod anodd hwn, ac yn wir mae Rheolwr Prosiect PACT wedi bod yn cefnogi cymunedau fel aelod o Grŵp Gwirfoddol y Fforwm Cydnerthedd Lleol a fu'n gweithio gyda Chynghorau Gwirfoddol Sirol a grwpiau cymunedau amrywiol.

Yn 2020/21 hefyd fe gyflawnodd PACT yr wythfed rownd gyllid 'Eich Cymuned Eich Dewis'. Wedi'i lansio yn 2013, mae'r gronfa hon yn parhau i fod yn boblogaidd iawn a rhoddodd £60,000 eleni i fentrau cymunedol lleol. Unwaith eto, cafodd y gronfa hon ei hariannu'n gyfartal gan fy Nghronfa fel Comisiynydd ac arian sydd wedi'i adennill gan droseddwyr o dan y Ddeddf Enillion Troseddau. Yn dilyn ymlaen o thema'r flwyddyn flaenorol o 'Greu Cymunedau Cydnerth', fe wnaethom ddatblygu hyn i fod yn 'Atgyfnerthu Cymunedau Cydnerth', gan ganolbwyntio ar gefnogi ac adfer yn ystod ac ar ôl y cyfyngiadau clo. Llwyddodd 'Eich Cymuned Eich Dewis' i ddenu ceisiadau o safon uchel unwaith eto. Derbyniwyd 48 o geisiadau a rhoddwyd 43 ohonynt ymlaen ar gyfer pleidlais gyhoeddus. Eleni cafodd y nifer uchaf erioed o bleidleisiau cyhoeddus eu bwrw - **32,000 a mwy** a derbyniodd 21 o sefydliadau gwirfoddol eu sieciau ym mis Chwefror 2021. Roedd y rhain yn cynnwys Cyfeillion Wern Mynach yn Abermaw, Clwb Criced Brymbo; Menter Kind Bay ym Mae Colwyn; Hope Restored yn Llandudno; Cymdeithas Cae Chwarae Llanferres; Tae Kwon Do Dinbych; Dinbych yn ei Blodau; a Chlwb Ieuenctid Caergybi.



Mae PACT yn parhau i reoli Cronfa Deddf Eiddo'r Heddlu ar ran Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd gyda Chronfa Grant Bach a Phrif Grant PACT yn parhau i fod yn brif gynhalwyr ein cyllid, yn ogystal â Chronfa Crimebeat Ieuenctid yr Uchel Siryf. Er gwaethaf y pandemig, llwyddodd PACT i gefnogi 80 o brosiectau a mwy yn 2020/21 yn ogystal ag ymgymryd â'r gwaith arall a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn.

Yn ystod 2020/21, comisiynodd PACT Brifysgol Glyndŵr Wrecsam i gynnal gwaith ymchwil gyda bron i 300 o dderbynwyr grant PACT i asesu gwerth ac effaith ein grantiau. Mae canfyddiadau'r ymchwil annibynnol hwn yn gadarnhaol dros ben, gyda 94% o'r prosiectau yn cael effaith gadarnhaol ar flaenoriaethau plismona a 92% o'r farn bod y gymuned ehangach wedi elwa ar yr ymyrraeth a ddarparwyd drwy'r elusen. Hefyd, dywedodd 75% o'r ymatebwyr na fyddai eu prosiectau wedi digwydd, neu byddent wedi digwydd ar raddfa lai, heb PACT.

Mae'r adroddiad yn tanlinellu'n glir y gwerth y gall cyllid PACT ei ychwanegu i'n cymunedau a'n swyddogion, naill ai fel cyllidwr unigol, neu fel mewn llawer o achosion, trefniant ariannu partneriaeth gwerthfawr. Mae canfyddiadau'r ymchwil hwn wedi bod yn hollbwysig wrth i ni ddatblygu ein strategaeth ddiweddar a gymeradwywyd gan yr ymddiriedolwyr, wrth i ni symud i 2021/22.

Yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 mae gan bob Comisiynydd Heddlu a Throsedd ddyletswydd statudol i sefydlu a chynnal **Cynllun Annibynnol Ymweld â'r Ddalfa**. Mae'r Cynllun Annibynnol Ymweld â'r Ddalfa yng Ngogledd Cymru yn galluogi cynrychiolwyr penodedig y gymuned leol i arsylwi, rhoi sylwadau ac adrodd ar yr amodau y mae unigolion yn cael eu cadw yn y ddalfa. Hefyd, mae'n cynnig lefel ychwanegol o ddiogelwch i unigolion sy'n cael eu cadw ac i swyddogion yr heddlu drwy ddarparu proses graffu annibynnol o driniaeth unigolion sy'n cael eu cadw a'r amodau y maent yn cael eu dal ynddynt.

Oherwydd y pandemig, nid oedd ymwelwyr y ddalfa yn gallu ymweld â'r ddalfa ar gyfer y rhan fwyaf o'r cyfnod adrodd hwn, ond oherwydd nad oedd yn bosibl cynnal ymweliadau ffisegol, roedd ymwelwyr y ddalfa yn parhau i ddarparu gwiriad lles gyda'r carcharorion.

Er mwyn sicrhau gwytnwch gweithwyr y Cynllun, fe wnaeth y Comisiynydd Heddlu a Throsedd hysbysebu, recriwtio a hyfforddi ymwelwyr newydd i'r ddalfa i ymuno â'r Cynllun yn ystod y Cyfyngiadau Symud. Mae deuddeg ymwelydd i'r ddalfa ychwanegol wedi ymuno â'r Cynllun ac fe wnaethant ddechrau ymweld â'r ddalfa yng Ngogledd Cymru o fis Mawrth 2021.

Cynhaliwyd asesiadau risg o ystafelloedd y ddalfa o ran Covid-19, er mwyn sicrhau ymweliadau a threfniadau cadw diogel i bob partner sy'n ymweld â'r ddalfa, staff a swyddogion a'r carcharorion.

Yn dilyn lansio Adroddiad **Comisiwn Ieuenctid Gogledd Cymru** y llynedd, rwyf wedi bod yn gweithio i gael partneriaid statudol i gyfranogi. Pan gafodd yr adroddiad ei gynhyrchu, roedd y Comisiwn Ieuenctid wedi gwneud argymhellion ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru, y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a hefyd ar gyfer fy mhartneriaid statudol ehangach ar draws Gogledd Cymru. Rwyf wedi cyflwyno'r argymhellion i Fwrdd Gogledd Cymru Mwy Diogel gyda chais y byddai partneriaid yn ystyried sut maen nhw'n cyflawni'r argymhellion. Rwy'n cydlynu eu hymatebion yn awr. O ran cynrychioli pobl ifanc ar draws y sector cyhoeddus, mae'n hollbwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd mewn partneriaeth, oherwydd anaml iawn y mae'r materion sy'n effeithio ar bobl ifanc yn gyfrifoldeb i un sefydliad yn unig. Mae yna faterion trawsbynciol bob amser sy'n galw am ymateb cydweithredol.




**Mae Single Online Home** (SOH) yn darparu gwasanaethau sydd wedi'u brandio'n lleol, sy'n gyson yn genedlaethol, sy'n creu un 'gorsaf heddlu ddigidol'. Mae Single Online Home wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus ac mae gwasanaethau ar waith ar draws Cymru ac mae'r broses o drawsnewid o wefannau etifeddiaeth yr heddlu wedi'i chwblhau. Cyflwynwyd y system dros chwe wythnos gan ddechrau gyda Digwyddiadau Traffig ar y Ffyrdd ar 28 Hydref, Adroddiadau ar Droseddau ar 4 Tachwedd, Gwasanaethau Ceisiadau am Wybodaeth e.e. Rhyddid Gwybodaeth ar 11 Tachwedd a'r gwasanaethau terfynol ar Drwyddedu Arfau o'r 8 Rhagfyr 2020. Mae defnydd yn cynyddu gyda llwyddiannau wedi'u nodi ynghylch ceisiadau am Drwyddedau Arfau sy'n llawer mwy syml erbyn hyn ac sy'n gwella profiad y cyhoedd fel defnyddwyr. Bydd data am ddefnydd er mwyn dilysu'r buddiannau a thystiolaeth gyson o'r newid yn cael ei gasglu a'i adolygu ar lefel ardaloedd heddlu unigol dros amser.



Mewn cysylltiad â **Phlismona Plant**, mae cynnydd sylweddol yn cael ei wneud i ddarparu lleoedd/y ddalfa diogel gyda Llywodraeth Cymru. Mae bwrdd newydd wedi'i sefydlu gyda chynrychiolwyr yn cynnwys swyddfa Comisiynwyr Heddlu a Throsedd, gwasanaethau'r ddalfa, rheolwyr gwasanaethau diogelu'r cyhoedd a chyfiawnder ieuenctid.

Heddlu Gogledd Cymru yw'r Heddlu sy'n cynnal y **Rhwydwaith Ymchwiliadau Fforensig i Wrthdrawiadau (FCIN)**. Arweinydd Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu yw'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Sacha Hatchett (Heddlu Gogledd Cymru) sydd hefyd yn Uwch Swyddog Cyfrifol i'r Rhwydwaith. Mae llawer o bobl wedi gweithio i wireddu'r cysyniad o ddull rhwydwaith FCI ar gyfer plismona. Sicrhawyd hyn yn gyflym, effeithlon ac effeithiol er mwyn cyflawni amserlen heriol ar gyfer sicrhau ardystiad, a bennwyd gan y Rheoleiddiwr Fforensig.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn ceisio sicrhau bod y ddarpariaeth **gwasanaeth fforensig** ar gyfer y cyhoedd yng Ngogledd Cymru yn darparu cynaliadwyedd hirdymor, sy'n ystyried arfer gorau, gofynion achredu a gwytnwch gweithredol. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cydweithio gyda Rhanbarth Gogledd-orllewin Lloegr i liniau'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r farchnad fforensig genedlaethol fregus. Mae'r rhanbarth wedi datblygu modelau gweithredu a fydd yn defnyddio dau faes risg uchel dadansoddi fforensig y cyfleusterau rhanbarthol sy'n cael eu harwain gan yr Heddlu.

- Dadansoddi dulliau Adnabod Cyffuriau yn Heddlu Swydd Gaerhirfryn.
- Dadansoddi tocsicoleg nad yw'n gymhleth ar gyfer troseddau Traffig ar y Ffyrdd Adran 5 yn Heddlu Glannau Merswy.

Yn ogystal, mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gefnogi ethos y Rhaglen Trawsnewid Fforensig; mae'r Uned Fforensig Ddigidol yn heddlu rhwydwaith ar gyfer y rhaglen sy'n cefnogi gwaith cenedlaethol ar dechnoleg awtomeiddio a fydd yn cefnogi gwaith pennu dosbarthiad delweddau mewn ymchwiliadau cam-fanteisio'n rhywiol ar blant.



# GWNEUD GWAHANIAETH

Rwy'n falch iawn o waith a chyflawniadau fy swyddfa, Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid yn ystod 2020/21. Rwyf wedi rhestru enghreifftiau isod o rai o'r cyflawniadau sy'n ceisio cyflawni'r nod cyffredinol o wneud Gogledd Cymru y lle mwyaf diogel i fyw yn y DU.



## Checkpoint Cymru

Mae'r tîm Checkpoint wedi parhau i ddarparu gwasanaeth o ansawdd i'r rhai sydd wedi'u dargyfeirio i ffwrdd o'r System Cyfiawnder Troseddol. Er gwaethaf cyfres o gyfnodau clo, mae'r tîm wedi addasu'n dda i weithio o bell a chynnal asesiadau ac ymyriadau dros y ffôn ac wyneb yn wyneb, pan oedd yn briodol a diogel iddynt wneud hynny. Mae'r cynllun adfer ar waith yn awr ac mae'r Llyw-wyr yn gweld pob achos newydd yn awr ar sail apwyntiad ar eiddo'r Heddlu pan ystyrir ei bod yn ddiogel gwneud hynny ac mae'r holl ganllawiau Covid yn cael eu dilyn. Mae cydbwysedd o weithio o bell a gweld pobl mewn person yn parhau.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, gwelsom gynnydd yn y nifer o atgyfeiriadau am fod ym meddiant cyffuriau a bu'r tîm yn brysur yn darparu'r Rhaglen Addysg Cyffuriau ar sail un i un o bell. Y gobaith yw, wrth i'r cyfyngiadau symud lacio, a nodi lleoliadau priodol, y gallwn ddarparu'r Rhaglen Addysg Cyffuriau i grŵp bach o bobl wrth symud ymlaen.

Mae Checkpoint wedi cael cyfnod sefydlog yn ystod y cyfnod heriol hwn ac mae nifer yr atgyfeiriadau yn parhau i fod yn gyson gan fwyaf, gydag achosion mwy cymhleth yn dechrau cael eu trefnu yn awr. Ers ei greu ym mis Rhagfyr 2019, bu 700 a mwy o atgyfeiriadau i'r cynllun. Pob clod i'r tîm am weithio yn y cyfnod anodd hwn a pharhau i gyflawni yn erbyn nodau'r rhaglen.

Roedd y rhan fwyaf o'r troseddau a atgyfeiriwyd yn droseddau cyffuriau, wedi'u dilyn yn agos gan droseddau yn erbyn y Drefn Gyhoeddus, ymosodiadau, difrod troseddol a dwyn o siopau.

## Desg Gymorth Covid Adnoddau Dynol

Cafodd y ddesg gymorth ei sefydlu'n gyflym pan ddechreuodd Covid-19 ym mis Mawrth 2020. Darparwyd y gwasanaethau canlynol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:

- Adnodd 7 niwrnod yr wythnos
- Pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un â symptomau neu a oedd angen cyngor ar Covid
- Pwynt cofnodi canolog er mwyn i'r Heddlu allu monitro pwy oedd yn hunan-ynysu ac yn y blaen
- Cefnogi'r gwaith o gydlynu adnoddau er mwyn i bobl a oedd yn gwarchod barhau i gefnogi gyda gwaith ystyrlon
- Cymorth Profi, Olrhain, Diogelu gan gynnwys cyflwyno profion llif unffordd
- Llety i'r bobl hynny â theuluoedd sy'n gwarchod
- Asesiadau Risg Covid wedi'u hadolygu gan yr Uned Iechyd Galwedigaethol, gan gynnwys pobl y gallai fod angen eu hadleoli yn seiliedig ar eu risg
- Asesiadau Risg Covid BAME
- Cymorth Lles i'r rhai sy'n derbyn prawf Covid positif (yn ôl yr angen)
- Egwyddorion Amser a Mynychu Diwygiedig er mwyn rhoi mwy o hyblygrwydd i bobl
- Cynorthwyo i gadw cofnodion o bwy sy'n Gweithio Gartref (wedi'i arwain gan Reolwyr Busnes)
- Cymorth Lles a Llesiant a oedd yn cynnwys lansio gwefan allanol er mwyn i bobl allu cael mynediad at y deunyddiau gartref
- Proses Marw yn y Swydd, pe byddai unrhyw un yn marw o ganlyniad i Covid-19
- Monitro datblygiad Covid Hir
- Diwygio ffyrdd o weithio Recriwtio yn unol â chanllawiau Op Talla, mewn cysylltiad â phrofion ffitrwydd, profion meddygol ac yn y blaen






## Lansio Matrics Lles Newydd

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi risg bosibl o drawma mechnïol y gallai swyddogion a staff ei wynebu oherwydd y rolau maent yn eu cyflawni. Bu i'r Tîm Llesiant gynnal ymchwil i edrych ar ganllawiau'r Gwasanaeth Lles Heddlu Cenedlaethol, Y Coleg Plismona ac Oscar Kilo ar gyfer rhaglen sgrinio gadarn i asesu risg seicolegol.

Rhoddwyd cymeradwyaeth, drwy'r Bwrdd Iechyd a Lles, i ddatblygu matrics a fyddai'n nodi a chefnogi swyddogion yr heddlu a staff a allai fod mewn risg, neu sy'n profi problemau iechyd meddwl a/neu amlygiad i drawma sy'n gysylltiedig â gwaith neu sy'n cael eu heffeithio gan waith. Yn seiliedig ar yr ymchwil, mae rhaglen yn cael ei threialu a bydd yn cynyddu'r cynnig sgrinio lles o 369 o sgriniadau yn 2019/2020 i 2000 a mwy yn 2020/2021. Os canfyddir, drwy'r sgrinio, y gallai gwaith gael effaith seicolegol negyddol ar unigolyn, yna mae yna nifer o ymyriadau y gall yr Heddlu eu cynnig yn awr, gan gynnwys mynediad at therapïau sy'n cynnwys Therapi Gwybyddol Ymddygiadol, cwnsela a rhaglenni penodedig yng Nghanolfannau Triniaeth yr Heddlu.

## Lansio Rhaglen Mynediad Uniongyrchol Ditectif Heddlu Gogledd Cymru

Ym mis Medi 2019 croesawodd Heddlu Cymru ein criw cyntaf o Dditectifs drwy Fynediad Uniongyrchol mewn cydweithrediad â Police Now ac ar ôl cwblhau eu blwyddyn gyntaf o hyfforddiant cychwynnol a chwblhau rhai lleoliadau mewn lifrai maent yn eu lleoliadau CID cyntaf yn awr. Mae'r adborth a dderbyniwyd ar y rhaglen yn bositif, felly yn dilyn y llwyddiant hwn, penderfynodd yr Heddlu yn 2020 y byddai'n ehangu'r llwybr mynediad hwn i helpu i ddatblygu'r cyflenwad o Dditectifs ond drwy ddarparu'r rhaglen yn fewnol a chydweithio gyda Heddlu De Cymru a Phrifysgol Bangor i ddatblygu ein rhaglen ein hunain.

Ar ddechrau 2021 fe agorodd y ffenestr recriwtio ar gyfer y rhaglen, gyda mwy na 200 o geisiadau yn cael eu derbyn mewn 24 awr. Mae'r Heddlu yn gweithio drwy gamau terfynol y cam recriwtio yn awr yn cwblhau'r rhaglen er mwyn croesawu'r criw newydd ar ddiwedd yr haf.

## Ymgyrch Encompass

Rwy'n falch iawn o ddatgan bod pob Awdurdod Lleol yn ymgysylltu ag Ymgyrch Encompass yn awr. Pryd bynnag y bydd swyddogion yn mynychu digwyddiad domestig, mae ysgol y plentyn/plant yn cael eu hysbysu y bore dilynol bod digwyddiad wedi bod yng nghartref y plentyn. Ni roddir unrhyw wybodaeth bellach ond mae hyn yn galluogi athrawon i gefnogi'r disgyblion perthnasol. Mae'r adborth yn bositif, ac mae atgyfeiriadau yn parhau i gael eu gwneud yn ystod y cyfnod clo, gyda'r athrawon yn cysylltu â'r plant drwy apiau ysgolion, ar-lein neu dros y ffôn. Mae Wrecsam hefyd wedi treialu estyniad i'r cynllun, a fyddai'n galluogi hysbysiad gael ei wneud pan fydd plentyn wedi cael unrhyw gyswllt gyda'r heddlu, ac nid digwyddiadau Cam-drin Domestig yn unig.

## MARAC

Cwblhawyd Cynhadledd Asesu Risg Amlasiantaeth (MARAC) yn Sir y Fflint, lle cyflwynwyd cyfarfodydd wythnosol rhithiol. Oherwydd bod trafodaethau dyddiol/wythnosol yn annog cyfleoedd ar gyfer ymyrraeth gynnar, mae llai o achosion yn cael eu huwchgyfeirio yn awr i'r MARAC misol, o gymharu â'r gorffennol. Mae'r broses 'MARAC Dyddiol' yn weithredol yn awr ar draws ardal yr heddlu. Mae'r ymgysylltiad yn y cyfarfodydd yn gadarnhaol, ac mae'r galw yn y cyfarfodydd MARAC misol yn bosibl eu rheoli. Mae Arolygydd penodedig sy'n gyfrifol am bob MARAC yn gyfrifol am sicrhau cysondeb ar draws pob awdurdod lleol.

## Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Cyhoeddwyd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar y Cyd rhwng yr Heddlu a fy swyddfa ym mis Ebrill 2019 ac mae ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Er mwyn cyflawni'r amcanion yn y Cynllun Cydraddoldeb, mae'r Heddlu wedi mabwysiadu Pecynnau Offer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC).

Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn arbennig o heriol ar gyfer plismona, gyda'r effaith yn dilyn llofruddiaeth George Floyd i'w theimlo ar draws y byd. Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi dod yn bwysicach nac erioed i wasanaeth yr heddlu, gyda mwy o bwyslais ar recriwtio a chysylltiadau cymunedol.

Cyhoeddir yr Adroddiad Blynyddol ar y Cyd ar y Cynllun Cydraddoldeb yn ystod haf 2021 lle bydd mwy o fanylion am gyflawniadau'r flwyddyn.

## Dinasyddion yn Plismona

Mae Dinasyddion yn Plismona yn derm a ddefnyddir i gwmpasu'r holl wirfoddolwyr yn y gwasanaeth Heddlu yn genedlaethol, sy'n cynnwys Cwnstabliaid Arbennig, Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu a Chadetiaid Gwirfoddol yr Heddlu (13-17 oed).

Mae'r Dirprwy Brif Gwnstabl Richard Debicki yn parhau fel Arweinydd Cenedlaethol y Gwnstabliaeth Arbennig ac fel arweinydd Rhanbarthol yng Nghymru ar gyfer Dinasyddion yn Plismona. Fel cadeirydd gweithgor Cenedlaethol y Gwnstabliaeth Arbennig, mae Richard yn goruchwylio tîm cenedlaethol sy'n gweithredu rhai newidiadau nodedig i'r ffordd y mae'r Gwnstabliaeth Arbennig yn gweithredu; yn arbennig, mae gwaith yn cael ei wneud a fydd, ar ôl ei gwblhau, yn golygu y bydd Cwnstabliaid Arbennig yn cael eu cynrychioli gan Ffederasiwn Heddlu Cymru a Lloegr (PFEW); y tro cyntaf yn yr 190 mlynedd yn hanes Cwnstabliaid Arbennig i ddarpariaeth o'r fath fod ar waith. Bydd cynrychiolaeth gan y PFEW yn mynd peth ffordd i sicrhau cydraddoldeb gyda chydweithwyr arferol, ond bydd hefyd yn galluogi i Gwnstabliaid Arbennig, maes o law, ddefnyddio TASER ac i gael eu lleoli ar gyfer cymorth ar y cyd y tu hwnt i'w hardal heddlu hwy, gan godi proffil y Gwnstabliaeth Arbennig a gwella'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt. Mae yna lif o Gwnstabliaid Arbennig sy'n parhau i ymuno â rhengoedd yr heddlu arferol ac, am y rheswm hwn, mae amser ac ymdrech yn cael ei neilltuo i gynyddu'r nifer o ymgeiswyr o safon uchel sy'n ymuno â'r Gwnstabliaeth Arbennig.

O ddyddiau cynnar ein hymateb i Covid-19 ar ddechrau 2020, mae'r heddlu wedi sicrhau bod gwirfoddolwyr, ac yn benodol y Gwnstabliaeth Arbennig, yn chwarae rhan flaenllaw yn y broses gynllunio yn Heddlu Gogledd Cymru. Roedd Prif Swyddog y Gwnstabliaeth Arbennig, Mark Owen yn aelod gweithredol o Grŵp Aur Covid-19 Heddlu a Gogledd Cymru ac roedd ganddo statws cyfartal â phob arweinydd gwasanaeth arall yn nhermau gwneud penderfyniadau yn y Grŵp hwnnw. Cafodd ei enwebu gan Heddlu Gogledd Cymru a chafodd ei gydnabod yn ddiweddar yn anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines, pan dderbyniodd M.B.E.



Mae rhai o'r dyletswyddau y mae ein Cwnstabliaeth Arbennig wedi'u cyflawni wedi cynnwys,

- Patrolau lleol gweledẹdd uchel ar droed ac mewn cerbydau er mwyn ymgysylltu â'n cymunedau a darparu sicrwydd iddynt
- Patrolau wedi'u cyfeirio yn arddull yr Uned Cefnogi'r Heddlu Agored mewn bysiau mini yr heddlu mewn cyrchfannau gwyliau poblogaidd o amgylch Gogledd Cymru er mwyn Ymgysylltu, Annog ac Addysgu a hefyd, pan fo'n briodol, Gorfodi, mewn cysylltiad â rheoliadau Covid-19. Rydym wedi cael mewnlifiad sylweddol o ymwelwyr i'n hardaloedd twristiaeth a oedd, ar y pryd, yn groes i'r rheoliadau ar waith.
- Patrolau wedi'u cyfeirio ochr yn ochr â Thimau Plismona yn y Gymdogaeth
- Er nad yw'r patrolau yn arddull yr Uned Cefnogi'r Heddlu wedi'u defnyddio mor aml ers cyflwyno cyfyngiadau symud Haen 4 ar 20 Rhagfyr rhoddwyd mwy o bwyslais ar batrolau gan Gwnstabliaid Arbennig mewn ardaloedd plismona lleol. Mae hyn wedi gwneud cyfraniad ychwanegol i'r LPS drwy gynnal patrolau Covid 19 wedi'u cyfeirio mewn ardaloedd y gwyddys eu bod yn denu ymwelwyr.



Yn ogystal â gweithgareddau ein Cwnstabliaeth Arbennig, mae ein staff Dinasyddion yn Plismona wedi chwarae rôl allweddol yn y Fforwm Gwytnwch Lleol sy'n sefydlu a chydgysylltu ymateb amlasiantaeth a oedd yn cynnwys gwirfoddolwyr a sefydliadau gwirfoddoli o bob rhan o'n hardal. Mae pob un o'r 6 Awdurdod Lleol, gwasanaethau brys eraill a'r Bwrdd Iechyd lleol wedi ymuno â sefydliadau'r trydydd sector i drefnu gwirfoddolwyr a manteisio ar gymorth y gwirfoddolwyr hynny yn ein cymunedau. Crëwyd Grŵp Gwytnwch Cymunedol a oedd yn cynnwys cynrychiolwyr a oedd yn rheoli gwirfoddol o bob rhan o'n hardal a thu hwnt, roedd rhai o'n Gwirfoddolwyr Cefnogi'r Heddlu yn rhan o'r grŵp hwn, a oedd hefyd yn cynnwys rhai sefydliadau lefel genedlaethol / ryngwladol er enghraifft Y Groes Goch Brydeinig. Drwy ddefnyddio'r dull cydgysylltiedig a chydlynus hwn, cafodd gwahaniaethau sefydliadol a allai fod wedi bodoli'n flaenorol eu rhoi i un ochr a chafwyd amgylchedd o gydweithio gwirioneddol er budd ein cymunedau. Cafodd gwirfoddolwyr digymell eu cyfeirio at y sefydliad a oedd yn fwyaf addas ar gyfer eu sgiliau a'u gallu ac roedd hyn yn galluogi iddynt ddechrau gweithio ar unwaith. Cafodd cyfeirlyfr o'r sgiliau, galluoedd a'r manylion cyswllt ar gyfer sefydliadau gwirfoddol ei lunio a'i rannu'n eang, sy'n golygu nad oes angen i sefydliadau chwilio am wirfoddolwyr sy'n cyfateb â'u hangen.

Oherwydd y cyfyngiadau Covid19 ar gynnal cyfweliadau wyneb yn wyneb, parhaodd ein Cadetiaid Heddlu Gwirfoddol i ddefnyddio fideo-gynadledda rhithiol, a oedd yn ein galluogi i barhau i gysylltu â hwy, mae unigolion amrywiol wedi cyflwyno sesiynau yn y dull hwn, gan gynnwys Prif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru, Uwcharolygydd yr Heddlu Niwclear Sifil, Y Llynges Frenhinol, Y Fyddin, Gwasanaeth Tân Gogledd Cymru ymhlith eraill.

## Storm Christoph

Daeth glaw trwm yn sgil Storm Christoph i rannau o'r DU o 19 Ionawr 2021, a cynyddodd lefelau afonydd mewn rhannau o Ogledd Cymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

Fe achosodd y storm lifogydd sylweddol yn ardal Dyffryn Dyfrdwy Isaf, yn benodol yn ardaloedd Bangor-is-y-coed a Holt/Rhedynfre. Ar noson y storm, lansiwyd ymgyrch i gynorthwyo 300 o aelwydydd i adael eu cartrefi ym mhentref Bangor-is-y-coed. Roedd yr ymgyrch hon yn un amlasiantaeth gyflym a helaeth. Fe ymatebodd adnoddau lleol a'r heddlu i'r her sylweddol a buont yn gweithio mewn amodau erchyll er mwyn helpu pobl i adael eu cartrefi a chadw'r gymuned honno'n ddiogel.

## Ymgyrch Fedora

Ar 26 Chwefror, bu 100 a mwy o Swyddogion yr Heddlu yn gweithredu deuddeg gwarant yn ardaloedd dwyreiniol a gorllewinol Gogledd Cymru. Mae pob un o'r pymtheg diffynnydd wedi'u cyhuddo o gynllwynio i gyflenwi cyffuriau dosbarth A. Ar ôl eu dedfrydu, bydd Heddlu Gogledd Cymru yn cynnal ymchwiliad atafaelu sydd eisoes wedi cynnwys atal tŷ, arian mewn cyfrif banc, swm o arian parod, cerbyd ac asedau eraill.

## Y Tîm Troseddau Gwledig

Mae'r Tîm Troseddau Gwledig yn cynnwys 7 Cwnstabl, 2 SCCH a rheolwr. Prif ffocws y tîm o hyd yw

- Ymgysylltu â chymunedau gwledig
- Mynd i'r afael â throseddau bywyd gwyllt ac amgylcheddol
- Gwella dulliau atal troseddau a diogelwch mewn lleoliadau gwledig

Bydd Future Farms Cymru yn cael ei lansio'n fuan, gyda'r nod o annog defnydd o dechnoleg diogelwch (diogelwch traddodiadol a thechnoleg fwy arloesol, er enghraifft synwyryddion diwifr pŵer isel), gyda'r bwriad o atal troseddau a chefnogi ymchwiliadau'r heddlu. Bydd y prosiect yn helpu i fynd i'r afael hefyd ag iechyd meddwl yn y gymuned ffermio.

*Deddf Da Byw Newydd y DU:* Mae'r tîm wedi gweithio'n galed i gyflwyno deddfwriaeth newydd sydd wedi'i chymeradwyo gan y senedd. Bydd mesurau newydd yn cael eu cyflwyno yng Nghymru a Lloegr i leihau'r nifer o achosion o aflonyddu ar dda byw, drwy'r Bil Lles Anifeiliaid a gyflwynwyd i'r Senedd ddydd Mawrth 8 Mehefin. Bydd pwerau gwell yn galluogi'r heddlu i ymateb i ddigwyddiadau o aflonyddu ar dda byw, yn fwy effeithiol – a'i gwneud yn haws iddynt gasglu tystiolaeth ac, yn yr achosion mwyaf difrifol, atafael a chadw cŵn er mwyn lleihau'r risg o ddigwyddiadau pellach.

Mae plismona gwledig wedi newid yn sylweddol dros y blynyddoedd, ac mae'r tîm penodedig yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf i atal a chanfod troseddau yn ein hardaloedd gwledig.

P'un a wneir hynny gyda drôn i chwilio neu arolygu ardaloedd mawr, cynnal dadansoddiadau fforensig o farwolaethau amheus anifeiliaid neu ddefnyddio synwyryddion symudiad mewn lleoliadau anghysbell, mae'r tîm yn ymdrechu i ddiogelu ein cymunedau gwledig.

Ar 31 Ionawr 2020, cafodd 3 dyn eu dedfrydu am gynllwynio i ddwyn peiriannau fferm ar draws ardaloedd Heddlu Gogledd Cymru / Swydd Gaer a Gorllewin Mercia. Cyflawnwyd y lladradau rhwng mis Hydref 2017 a mis Tachwedd 2018 a gwerth y peiriannau fferm a gafodd eu dwyn oedd £100,000 a mwy. Derbyniodd y tri ddedfryd o rhwng 2 flynedd a 3 blynedd a 3 mis. Mae Ymchwiliad Enillion Troseddol wedi dechrau yn awr.

## Tîm cynrychioli'r gweithlu

Mae'r Tîm Cynrychioli'r Gweithlu wedi bod yn gweithredu ers 13 Ionawr 2020. Yn ystod y cyfnod hwn, maent wedi gwneud cynnydd mawr tuag at sicrhau bod Heddlu Gogledd Cymru yn fwy cynrychioliadol o'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Mae gwaith denu ac ymgysylltu wedi'i dargedu wedi'i gynnal ar hyd a lled ardal yr heddlu, mewn cydweithrediad ag Ardaloedd Dosbarth. Mae ymgyrchoedd recriwtio ar-lein a Digwyddiadau Gweithredu Cadarnhaol wedi'u cynnal ar-lein.

Mae Sesiynau Cymorth Gweithredu Cadarnhaol wedi'u datblygu ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais i ymuno â Heddlu Gogledd Cymru o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn ogystal ag i'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sefydliad ac sy'n gwneud cais am ddyrchafiad. Mae ymdrechion i chwalu mythau wedi'u cynnal ar y cyfryngau cymdeithasol ynghylch gweithredu cadarnhaol a pham ei fod yn bwysig fel offeryn i sicrhau bod ymgeiswyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn gallu cystadlu'n deg, a fydd yn cynorthwyo ein gwaith i greu gweithlu mwy amrywiol.

Mae ein cynrychiolaeth o swyddogion Heddlu Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ein gweithlu wedi cynyddu o 0.92% ym mis Ionawr 2020 i 1.18% ym mis Ionawr 2021, cynnydd o 5 swyddog. Rydym wedi gweld cynnydd hefyd yn nifer y swyddogion o Grwpiau Ethnig Gwyn eraill o 0.59% ym mis Ionawr 2020 i 0.81%, cynnydd o 5 swyddog, ac mae'r Heddlu ar y trywydd cywir i recriwtio swyddogion fel rhan o Raglen 'Uplift' yr Heddlu.

Mae'r tîm wedi gweithio hefyd i gefnogi'r rhai o'r



grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli ar ôl iddynt ymuno â'r sefydliad, ac maent wedi datblygu Cynllun Cyfeillio ar gyfer recriwtiaid newydd, sy'n rhoi haen ychwanegol o gymorth iddynt, sy'n cael ei gynnal ar y cyd â'r Gymdeithas Heddlu Du ac Asiaidd.

Mae Tîm Caplaniaeth Aml-Ffydd wedi'i lansio hefyd, sy'n cynnwys 5 caplan, pob un yn wirfoddolwyr, sy'n rhoi o'u hamser am ddim i gynnig help a chymorth i bob cyflogai yn Heddlu Gogledd Cymru. Eu prif rôl yw darparu cefnogaeth fugeiliol ac ysbrydol i'r rhai sy'n ceisio cymorth, waeth beth yw eu cefndiroedd neu gred bersonol.

## Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant

Prif Gwnstabl Foulkes yw Arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ar gyfer Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant ac mae wir yn faes sy'n croesi llawer o'r meysydd Plismona yr wyf wedi canolbwyntio arnynt, gan gynnwys y Blaenoriaethau Plismona rwyf wedi'u pennu.

Mae'r pandemig wedi dangos unwaith eto sut y mae rhai cymunedau lleiafrifol yn cael eu heffeithio fwy nac eraill a bod anghymesuredd parhaus yn bodoli yn ein cymdeithas.

Mae tensiynau cenedlaethol ar adael yr Undeb Ewropeaidd, y newid yn yr hinsawdd neu ddeddfwriaethau Coronafeirws wedi golygu bod plismona wedi bod yn fwy heriol. Rhoddodd llofruddiaeth George Floyd, er bod hynny wedi digwydd yn yr Unol Daleithiau sylw o'r newydd ar blismona ar draws y byd, yn benodol ar anghymesuredd mewn plismona, sut mae'n ymgysylltu gyda, a sut y gall ddatblygu ymddiriedaeth ymhlith, cymunedau lleiafrifol.

Mae bod yn Heddlu sy'n wirioneddol gynrychioliadol a chynhwysol yn hollbwysig er mwyn gwella'r perthnasau hynny. Gwn fod y Prif Gwnstabl yn canolbwyntio ar feithrin y diwylliant hwnnw i blismona, sy'n llawer mwy na dim ond bod yn amrywiol "ar bapur" yn nhermau recriwtio.



Mae profiadau byw merched a'u diogelwch yn derbyn sylw cenedlaethol haeddiannol, a hynny yn anffodus yn dilyn rhai achosion proffil uchel o drais eithafol. Mae diogelwch menywod a merched wedi'i adlewyrchu yn fy mlaenoriaethau, yn benodol ym meysydd Trais Domestig, Cam-drin Rhywiol a Sicrhau Cymdogaethau Diogel. Rwy'n falch bod y Prif Gwnstabl, yn ei rôl fel yr arweinydd Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant yn gweithio gyda'r Prif Gwnstabl Rachel Swann o Swydd Derby (Arweinydd y rhywiau) i gynhyrchu Strategaeth Genedlaethol Trais yn erbyn Merched a Merched ar gyfer Plismona yn y DU. Bydd y llif gwaith a'r cynlluniau gweithredu yn adrodd yn ôl yn uniongyrchol iddo fel Cadeirydd y pwyllgor Amrywiaeth, Cydraddoldeb a Chynhwysiant.

## Gwobr Oscar Kilo

Mae'r Gwobrau Oscar Kilo yn cydnabod y gwaith rhagorol sydd wedi'i wneud, ac sy'n parhau i gael ei wneud, i ddarparu cymorth llesiant ar draws plismona yn y DU. Heddlu Gogledd Cymru ddaeth yn ail yn y Categori Diogelu'r Gweithlu ar gyfer y rhaglen Sgrinio'r Brostad a sefydlwyd. Mae ffigurau'n dangos bod 2,500 a mwy o ddynion yn derbyn diagnosis o ganser y prostad bob blwyddyn yng Nghymru, mae tua 600 yn marw bob blwyddyn ac mae tua 21,000 o ddynion yn byw gyda chanser y prostad neu wedi ei oroesi yng Nghymru. Dechreuodd y rhaglen PSA ar ddiwedd 2019, gyda chefnogaeth gan Ymddiriedolaeth Elusennol Graham Fulford, ar ôl sicrhau cyllid gan y Prif Gwnstabl i sicrhau bod gwasanaeth samplo gwaed ar gael ar gyfer pob aelod o staff gwrywaidd 40 oed a hŷn. Mae'r Tîm Llesiant wedi cynnal nifer o ddyddiau profi lle maent yn ymweld â gwahanol rannau o'r Heddlu a chymryd sampl gwaed gan bobl, yna ei anfon i'w ddadansoddi. Hyd yma, mae 653 o brofion wedi'u cynnal ac rydym yn ymwybodol o 4 dyn, drwy apwyntiad dilynol, sydd wedi derbyn diagnosis o ganser y prostad nad oeddent yn arddangos unrhyw symptomau. Mae'r dynion hyn yn derbyn triniaeth a chefnogaeth yn awr.

## Gwasanaethau Cyfiawnder

Mae gwaith ailstrwythuro ac ail-frandio'r Gwasanaethau Cyfiawnder wedi'i wneud i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn adran fodern, addas i'r diben ac sy'n gallu cyflawni'r galw cynyddol ar draws y System Cyfiawnder Troseddol. Mae'r newidiadau hyn yn cynnwys cyflwyno Cod newydd i Ddioddefwyr a Chanllawiau diwygiedig y Twrnai Cyffredinol. Mae ôl-groniadau'r Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi (tua 700 o achosion yn awr) wedi effeithio ar adrannau amrywiol ar draws y Gwasanaethau Cyfiawnder, gydag achosion yn cael eu hail-restru a'u tynnu oddi ar restrau ar y funud olaf a newidiadau i safonau cenedlaethol. Gwelwyd cynnydd o 40% mewn llwyth achosion ym maes Gofalu am Dystion.

Mae'r gwaith ailstrwythuro hefyd wedi sicrhau bod gwydnwch i reoli cynnydd digynsail mewn llwyth gwaith a heriau ar draws y Gwasanaethau Cyfiawnder, a hynny cyn ac ar ôl dechrau'r pandemig. Mae'r Gwasanaethau Cyfiawnder yn rheoli mwy na 1000 o drafodion y dydd ac mae'r defnydd o dechnoleg yn hollbwysig. Er mwyn darparu gwasanaethau effeithiol ac effeithlon, bydd y strwythur newydd yn sicrhau bod yr Heddlu'n parhau i elwa ar y dechnegol gwybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael, gan gynnwys Roboteg, Deallusrwydd Artiffisial a newidiadau TGCh Cenedlaethol yr Heddlu.



## Cyfathrebu Corfforaethol

Yn unol â dull digidol yn gyntaf Heddlu Gogledd Cymru yn ystod y flwyddyn ddiwethaf (Ion 2020-21) mae'r heddlu wedi cynyddu allbwn fideo, maint y gynulleidfa a'r ymgysylltiad ar draws yr holl lwyfannau cymdeithasol yn sylweddol.

- 3.4 miliwn ymgysylltiad (cynnydd o 338%)
- 30,000 o bostiadau (cynnydd o 150%)
- Cyrhaeddiad o 141 miliwn ar Facebook (cynnydd o 152.2%)
- 450,000 o ddilynwyr (cynnydd o 140%)
- 10 awr o fideo wedi'u llwytho (cynnydd o 400%)

Yn naturiol, maent wedi canolbwyntio ar negeseuon Covid, yn fewnol ac yn allanol, gyda mwy o bwyslais ar weithio mewn partneriaeth. Yn ystod y cyfnod clo cyntaf bu arweinwyr cyfathrebu o'r partneriaid yn y Fforwm Gwydnwch Lleol yn cwrdd yn ddyddiol i rannu a phwysleisio negeseuon ar draws y rhanbarth. Mae hyn wedi parhau, gydag o leiaf un cyfarfod yn cael ei gynnal yr wythnos gyda chydweithwyr o Lywodraeth Cymru yn eu mynychu'n rheolaidd yn awr.

## Y Gymraeg

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru, fel pob corff cyhoeddus arall yng Nghymru, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau'r Iaith Gymraeg sy'n cael eu cyhoeddi gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae swyddogion o fy nhîm wedi sicrhau nad yw'r pandemig, a'r ffaith bod y mwyafrif o'r tîm wedi bod yn gweithio gartref ar hyd y flwyddyn, wedi effeithio ar ein gallu i ddarparu gwasanaeth cwbl ddwyieithog ac nad yw'r iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Hefyd, rwyf wedi parhau i fonitro'r gwasanaeth Cymraeg sy'n cael ei ddarparu gan yr Heddlu drwy Grŵp yr Iaith Gymraeg, sy'n cael ei gadeirio ar lefel Prif Swyddog gan y Dirprwy Brif Gwnstabl, sy'n cyfarfod yn chwarterol, ac sy'n cael ei fynychu gan aelod o fy nhîm. Mae'r Grŵp hwn yn ystyried gallu iaith Gymraeg recriwtiaid newydd, staff presennol a chymhwysedd swyddogion yn ôl lleoliad, ac adroddiadau amlygu o wahanol adrannau yn erbyn ein Strategaeth ar y Cyd ar gyfer yr Iaith Gymraeg.

Fel sefydliad, fe wnaeth fy Swyddfa gymryd rhan yn ymgyrch 'Diwrnod Hawliau' Comisiynydd y Gymraeg ddechrau mis Rhagfyr 2020. Fel yn 2019, fe wnaethom fanteisio ar y cyfle i hybu ein gwasanaethau Cymraeg drwy'r cyfryngau cymdeithasol, gan gyrraedd cynulleidfaoedd sylweddol. Roedd rhan o'r ymgyrch yn cynnwys amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i aelodau'r cyhoedd i ddefnyddio'r iaith Gymraeg wrth gysylltu â'm Swyddfa a Heddlu Gogledd Cymru.








# CYFLAWNI RÔL COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD

Fy nghyfrifoldebau craidd fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd yw:

1. Cynnal heddlu effeithlon ac effeithiol ar gyfer Gogledd Cymru
2. Dwyn i gyfrif y Prif Gwnstabl am arfer ei swyddogaethau
3. Uno diogelwch cymunedol a phartneriaid cyfiawnder troseddol
4. Cydweithio gyda Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill a llunio a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd yr heddlu

## 01 Heddlu effeithlon ac effeithiol

Mae effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd yr Heddlu yn cael eu harchwilio'n flynyddol gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi (HMICFRS) yn yr asesiad PEEL.

Oherwydd y pandemig COVID-19, fe wnaeth HMICFRS ohirio pob gwaith archwilio a oedd angen cyfraniadau gan heddluoedd a gwasanaethau tân ac achub, er mwyn galluogi iddynt ganolbwyntio ar eu gwaith hollbwysig ar y pryd ac ymateb i'r her ddigynsail. Roedd y gohiriad hwn yn golygu mai cynnydd cyfyngedig a wnaed ar argymhellion i'w cyflawni, fodd bynnag, roedd hyn yn wir ar draws pob un o'r 43 ardal yr heddlu, a dyma oedd y peth cywir i'w wneud.

Cyhoeddodd HMIC eu hadroddiad 'Policing in the pandemic -The police response to the coronavirus pandemic during 2020'. Roeddwn yn falch bod yr adroddiad yn adlewyrchu'r ymrwymiad, ymroddiad a'r hyblygrwydd a ddangoswyd gan swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu a oedd yn gweithio mewn amgylchiadau eithriadol o anodd.

Ers dechrau'r pandemig, dull gweithredu Heddlu Gogledd Cymru bob amser oedd ymgysylltu â'n cymunedau a defnyddio mesurau gorfodi ar gyfer achosion digamsyniol clir o dorri deddfwriaeth ac roeddwn yn cefnogi'r agwedd honno'n llwyr.




Fe gydnabu HMIC yn eu harchwiliad bod nifer o heddluoedd wedi mynegi rhwystredigaeth reolaidd oherwydd y diffyg rhybudd a roddwyd iddynt am rai newidiadau i'r gyfraith a'r canllawiau a'r anawsterau o ddarparu canllawiau gweithredol amserol a chlir i swyddogion rheng flaen. Yn ffodus, nid dyma oedd y sefyllfa yng Nghymru oherwydd bod Uned Gyswllt yr Heddlu wedi darparu'r cyswllt strategol rhwng pedair ardal yr heddlu yng Nghymru, y 4 Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Llywodraeth Cymru, a nododd HMIC, Yn gyffredinol, roedd y perthnasoedd sefydledig rhwng heddluoedd Cymru a Llywodraeth Cymru yn gydweithredol ac effeithiol. Roedd Llywodraeth ddatganoledig Cymru yn golygu bod yr heddlu yng Nghymru o'r farn eu bod yn cyfrannu at yr ymgynghoriad ar ddeddfwriaethau drafft ar y cyfan, ac roedd y ffaith bod y cyfrifoldeb dros iechyd wedi'i ddatganoli yn ffactor yn effeithiolrwydd y perthnasoedd hyn.

Fe nododd yr arolygiad yn gywir yr effaith ar lesiant swyddogion yr heddlu ac yn benodol;

> *I rai aelodau o'r heddlu, mae eu rôl o ddydd i ddydd yn golygu eu bod mewn risg uwch o ddal y feirws. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, drwy rywun yn poeri arnynt mewn cyswllt agos gydag aelod o'r cyhoedd y maent yn eu cadw neu'n eu harestio.*

Mae'n anffodus felly na wnaeth y llywodraeth gefnogi swyddogion rheng flaen drwy roi blaenoriaeth iddynt gael y brechiad. Fodd bynnag, diolch i waith diflino'r Prif Gwnstabl Cynorthwyol Nigel Harrison a'r Prif Gwnstabl Andy Collis, llwyddodd Heddlu Gogledd Cymru i ddefnyddio brechlynnau dros ben yn effeithiol iawn ar draws y sefydliad, gyda 1000 a mwy o aelodau o'n staff yn cael eu brechu, a fyddai wedi bod yn aros fel arall. Cafodd hyn effaith gadarnhaol ar les staff ar amser hollbwysig ac roedd hefyd yn golygu na fyddai brechlynnau gwerthfawr yn cael eu gwastraffu.

Mae pryderon cynyddol ynglŷn â lles a blinder y gweithlu wrth i'r gwasanaeth barhau i gyflawni busnes fel arfer ochr yn ochr â'i waith ar Covid. Mae llawer o swyddogion a staff yn dioddef gorludded ac o gofio bod y mwyafrif helaeth o staff wedi bod yn gweithio'n galetach, am gyfnodau hwy, a heb gael amser digonol i ffwrdd, mae angen cefnogi eu hanghenion iechyd a lles. Dangosodd arolwg yr Uwcharolygydd themâu tebyg, yn arbennig pryderon am yr effaith ar iechyd meddwl swyddogion yr heddlu a staff.

## 02 Dwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif

Y prif ddull yr wyf yn parhau i'w ddefnyddio i ddwyn y Prif Gwnstabl i gyfrif yw drwy'r Bwrdd Gweithredol Strategol, yr wyf yn Gadeirydd arno, ac y mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn aelodau ohono.

Mae'r Bwrdd hwn yn cwrdd yn rheolaidd ac mae wedi parhau i gwrdd o bell yn ystod y 12 mis diwethaf. Rwy'n derbyn adroddiadau ar wahanol agweddau ar swyddogaethau'r Prif Gwnstabl, gan gynnwys ystadegau troseddau am y cyfnod yn union cyn y cyfarfod, y crynodeb perfformiad misol (sy'n cynnwys gwybodaeth am berfformiad lleol), adroddiadau cyllid, canlyniadau arolygon swyddogion a staff a boddhad y cyhoedd. Rwyf hefyd wedi gofyn i wybodaeth reolaidd am y Defnydd o Rym, cadw plant yn nalfa'r heddlu, Adnoddau Dynol a datblygiad cynaliadwy gael ei hystyried yng nghyfarfodydd y Bwrdd hwn.

Cyflawnir swyddogaethau craffu pellach o'r Heddlu yn y fy Mwrdd Craffu ar Safonau Proffesiynol, y Panel Craffu Amlasiantaeth, y Bwrdd Llywodraethu ar y Cyd, y Panel Annibynnol Ymwelwyr y Ddalfa ac ymarferion samplo ar hap o ymchwiliadau cwynion Safonau Proffesiynol a galwadau i'r system 101. Rwyf wedi darparu gwybodaeth bellach am fy rôl graffu a'r cymorth sydd gennyf ar waith ar fy ngwefan.

### Craffu ar yr Ystafell Reoli – Ymarferion Samplo ar Hap 101



Mae'r ymarferion samplo ar hap 101 yn cael eu cynnal yn chwarterol, gydag 20 galwad yn cael eu hadolygu ar ddiwrnod a ddewisir ar hap yn y chwarter diwethaf. Mae'r system hon wedi bod ar waith ers blwyddyn erbyn hyn ac mae'n gweithio'n dda. Rydym wedi nodi meysydd i'w gwella gan gynnwys y defnydd o gyfarchiad dwyieithog ar ddechrau pob galwad. Yn dilyn adborth, mae'r Heddlu wedi darparu canllawiau ychwanegol a gwelwyd gwelliant.

Gwelwyd enghreifftiau gwych hefyd o wasanaeth cyhoeddus da a nodwyd yn ystod yr ymarferion samplo ar hap gydag unigolion yn gweithredu uwchlaw eu rolau a dangos tosturi ac amynedd yn ystod galwadau anodd. Rhoddir pob adborth i'r rhai sy'n derbyn y galwadau a'u goruchwylwyr.

### Cynllun Ymateb Covid-19

Mae'r argyfwng a grëwyd gan COVID-19 wedi golygu nad oedd yn bosibl gweithredu yn ôl yr arfer. Er mwyn ymateb i'r argyfwng a chyflawni fy nghyfrifoldebau statudol, cyflwynwyd fy ffocws fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn Cynllun Ymateb a gyhoeddwyd ar fy ngwefan. Roedd y cynllun ymateb yn nodi fy mlaenoriaeth fel a ganlyn:

1. Sicrhau bod gan y Prif Gwnstabl ddigon o adnoddau i ymateb i'r argyfwng
2. Sicrhau, ar ran ein cymunedau, bod yr heddlu'n ymateb mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol, yn ddigonol, yn gymesur ac yn foesegol (dwyn i gyfrif)
3. Hwyluso gwaith partneriaeth effeithiol rhwng asiantaethau a grwpiau sy'n gweithio ym maes diogelwch cymunedol a chyfiawnder troseddol
4. Comisiynu gwasanaethau, yn enwedig ar gyfer dioddefwyr trosedd, a darparu grantiau at ddibenion plismona a lleihau niwed
5. Sicrhau bod iechyd tymor hir Heddlu Gogledd Cymru yn cael ei ddiogelu drwy fonitro cynllunio adferiad y sefydliad a gweithgarwch y tu hwnt i argyfwng Covid-19

Mae fy uwch dîm a minnau wedi derbyn gwybodaeth reolaidd ar hyd y cyfnod hwn gan y Prif Swyddogion ar y sefyllfa COVID-19 a materion plismona yn gyffredinol. Roedd y briffiau hyn yn trafod y gofynion dyddiol ar yr Heddlu, lefelau tynnu staff a materion eraill o bryder. Roedd y briffiau hyn hefyd yn darparu cyfle i dderbyn gwybodaeth am faterion gan Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'w hystyried gan yr Heddlu - e.e. gwybodaeth gan y cyhoedd, partneriaid, darparwyr gwasanaeth sydd wedi'u comisiynu gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, monitro perfformiad 'busnes fel arfer'; materion sy'n ymwneud â gwytnwch staff Swyddfa'r Comisiynydd a threfniadau parhad busnes ac yn y blaen.

## 03 Uno diogelwch cymunedol a phartneriaid cyfiawnder troseddol

Mae'n amlwg i mi, er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau strategol yn fy Nghynllun, bod cefnogaeth ein partneriaid yn hollbwysig - ni all yr heddlu ddelio â materion bregusrwydd a cham-fanteisio ar eu pennau eu hunain.

Mae fy swyddfa a minnau yn aelod o'r pwyllgorau a byrddau rhanbarthol a Chymru Gyfan canlynol:-

- Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru
- Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Gwell
- Bwrdd Cynllunio Ardal
- Bwrdd Arweinyddiaeth Ranbarthol
- Bwrdd Bregusrwydd a Cham-fanteisio
- Bwrdd Cenedlaethol Gweithredu'n Gynnar Gyda'n Gilydd (Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod)
- Grŵp Plismona yng Nghymru
- Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
- Pwyllgor Goruchwylio ar y Cyd Gogledd-orllewin Lloegr

Mae gennyf ddyletswydd i sicrhau bod cyrff cyfiawnder troseddol sy'n arfer swyddogaethau fel cyrff cyfiawnder troseddol yn yr ardal heddlu honno, yn darparu system cyfiawnder troseddol effeithlon ac effeithiol. Er mwyn cyflawni'r dyletswyddau hyn rwy'n cadeirio Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru. Mae'r Bwrdd yn cwrdd bob chwarter ac mae'n cael ei weinyddu gan fy swyddfa.

Mae aelodaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru yn cynnwys y Prif Gwnstabl, Pennaeth Adran y Gwasanaethau Cyfiawnder a chynrychiolwyr o Wasanaeth Erlyn y Goron, Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi, Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi, CEM Berwyn, Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru a'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid.

Gweledigaeth gyffredinol y Bwrdd yw Darparu fforwm amlasiantaeth i gyfnewid gwybodaeth, darparu arweinyddiaeth a llywodraethiant, a nodi a goresgyn rhwystrau er mwyn cyflawni Gwasanaeth

Cyfiawnder Troseddol mwy effeithlon ac effeithiol sy'n rhoi blaenoriaeth i anghenion dioddefwyr a phobl agored i niwed gan gynnwys defnyddwyr cyffuriau.

## 04 Cydweithio â Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill

Mae cydweithio â Chomisiynwyr Heddlu a Throsedd eraill i greu a gweithredu strategaethau ar draws ardaloedd heddlu yn swyddogaeth bwysig ac mae'n cyfrannu at gyflawni'r Gofyniad Plismona Strategol. Rwyf wedi ceisio cyflawni'r swyddogaeth hon drwy gynnal cyfarfodydd rheolaidd gyda fy nghyd-gomisiynwyr a'u Prif Gwnstabliaid yng Nghymru a Gogledd-orllewin Lloegr.

Mae'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a heddluoedd Gogledd-orllewin Lloegr yn arbennig o bwysig i blismona yng Ngogledd Cymru oherwydd mae'r agosrwydd daearyddol yn golygu bod gennym flaenoriaethau cyffredin ar gyfer mynd i'r afael â throseddau difrifol a chyfundrefnol, yn ogystal â darparu cydweithrediad gweithredol i wasanaeth yr heddlu. Yr wyf yn parhau i edmygu'r canlyniadau y mae'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (Titan) wedi'u cyflawni. Mae'n enghraifft ragorol o gydweithio i gyflawni canlyniadau diriaethol sy'n cadw cymunedau Gogledd Cymru yn ddiogel.

Gwnaed cynnydd sylweddol yn ystod y cyfnod adrodd hwn ar nifer o brosiectau cydweithredol rhwng pedair ardal heddlu Cymru, Gogledd-orllewin Lloegr a phrosiectau cenedlaethol. Ymhlith y cynnydd i'w nodi'n arbennig mae:-

Cytunwyd ar Gydweithrediad Arfordir y Gorllewin (WCC) yn 2012. Nod y WCC oedd galluogi Heddlu Glannau Merswy, Swydd Gaer a Gogledd Cymru i gyflawni cydweithrediad busnes lle gellid nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion neu well effeithiolrwydd. Fodd bynnag, cyn y gellid dechrau ar y cydweithrediad busnes, cafwyd cydnabyddiaeth y byddai'n rhaid i'r tair ardal heddlu rannu'r un system TG rheoli cofnodion o'r enw Niche. Hyd yma mae WCC wedi cyflawni:

- Trosi i un system TG Niche a rennir gan dair ardal yr heddlu er mwyn cynnal prosesau sy'n cynnwys rheoli troseddau a'r ddalfa. Byddai hyn yr enghraifft gyntaf o hyn o'r safbwynt bod y tair ardal heddlu wedi cyfuno data i un set y mae'r tair ardal heddlu yn berchen arni.
- Mae Timau Rheoli Gwasanaethau Niche wedi'u huno'n llwyddiannus yn awr i un Tîm a rennir gan dair ardal yr heddlu.
- Sefydlwyd Bwrdd awtomeiddio i oruchwylio dull cydweithredol o awtomeiddio prosesau i ddechrau yn Niche. Mae tair ardal yr heddlu wedi dod i gytundeb eisoes i rannu'r gost o weithredu robot i gyfuno cyfeiriadau sy'n cael eu dyblygu yn awtomatig yn Niche. Mae gwaith pellach yn cael ei wneud yn awr yn yr ardal fusnes cyfiawnder troseddol.
- Mae adolygiad wedi dechrau yn y broses ôl-gyhuddo Cyfiawnder Troseddol i nodi cyfleoedd i gydweithio. Bu ffocws penodol ar gyfleoedd i rannu'r gost o awtomeiddio roboteg.
- Sicrhawyd cytundeb i Dyfed Powys ymuno â Llwyfan a rennir Niche. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gyflawni hyn diwedd 2021 neu ddechrau 2022.




Mae nifer o ddarnau eraill o waith yn cael eu datblygu yn ystod y ddwy flynedd nesaf drwy'r WCC. Y prif rai yw:

- Trosi i'r Modiwl Fforensig Niche er mwyn rheoli tystiolaeth fforensig yn Niche yn hytrach na defnyddio cronfa ddata rhyngwyneb allanol.
- Trosi i'r Modiwl Ar Goll o Gartref Niche. Rydym yn defnyddio cronfa ddata gwbl annibynnol yn awr i reoli ymholiadau am bobl sydd ar goll.
- Symud i fersiwn wedi'i diweddaru o Niche o'r enw Cymhwysiad Cyffredinol sy'n llawer mwy greddfol a hawdd ei defnyddio.
- Cynnwys anghenion y cynnyrch Ffeil Achosion Digidol Cenedlaethol yn Niche.



- Symud Niche i wasanaeth mewn cwmwl o'r dull gweinydd lleol presennol sy'n cael ei reoli gan Lannau Merswy ar hyn o bryd.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi rhoi'r gorau i'w dibyniaeth ar Seilwaith Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig gyda Swydd Gaer. Wrth wneud hyn, mae wedi cydymffurfio â'r gofyniad cenedlaethol i gyflwyno data Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig i'r Gwasanaeth ANPR Cenedlaethol newydd yn y Cwmwl a'r llwyfan NADC etifeddol.

O dan arweinyddiaeth y Swyddfa Gartref, mae Rhaglen Cyfathrebu Symudol y Gwasanaethau Brys (ESMCP) yn gyfrifol am y dasg o ddisodli Airwave gyda chynnyrch cyfathrebu newydd sydd wedi'i ddiogelu'n dechnegol ar gyfer y dyfodol, o'r enw'r Rhwydwaith Gwasanaethau Brys (ESN). Y cynllun Rhaglen diweddaraf yw dechrau trawsnewid i ESN yn ôl rhanbarthau, gan ddechrau yn ystod 2024 a gorffen ddiwedd 2026. Bydd Rhanbarth Cymru yn un o'r rhanbarthau olaf i wneud hyn.

Mae'r dull o gyflawni ESN yng Nghymru yn cael ei strwythuro o amgylch cydweithrediad sy'n cynnwys yr holl wasanaethau brys. Mae'r cydweithrediad yn sicrhau bod gwaith yn cael ei rannu pan fydd o fudd cyffredinol a bod cymorth ar gael ar draws Cymru i bob gwasanaeth unigol allu cyflawni eu hanghenion lleol penodol. Agwedd bwysig iawn o Gydweithrediad Rhanbarth Cymru yw y bydd yr elfen lywodraethu yn cael ei chyflawni a'i chefnogi gan y Grŵp ar y Cyd Gwasanaethau Brys, o dan gadeiryddiaeth Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae Heddlu Gogledd Cymru yn cadeirio Grŵp Cwmpas Gogledd Cymru; maent yn cynrychioli Rhanbarth Cymru ar fforwm Efydd Cenedlaethol yr Heddlu a'r fforwm dyfais Cenedlaethol.



# BLWYDDYN O YMGYSYLLTU

Rwy'n cynrychioli pob un o'n cymunedau ledled Gogledd Cymru wrth sicrhau bod eu gwasanaeth plismona mor effeithlon ac effeithiol â phosib. Felly, rwy'n rhoi pwys mawr ar fynd allan o'r swyddfa a chyfarfod â'r cyhoedd ar bob cyfle. Ni allaf gasglu gwybodaeth heb fynd i ddigwyddiadau, cyfarfodydd, cynadleddau a chyfarfod ag aelodau o gymunedau bywiog ac amrywiol Gogledd Cymru.

Am resymau amlwg, mae'r cyfleoedd i ymgysylltu wedi bod yn gyfyngedig iawn dros y 12 mis diwethaf lle rydym wedi gweld mwy o ffocws ar ddigwyddiadau ymgysylltu ar-lein.



## EBRILL - MEDI 2020




### EBRILL 2020

- Cyfarfod Cymdeithas Prif Weithredwyr Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (APACE)
- Cyfarfod Ymgynghorwyr a Chadeiryddion Rhanbarthol Cymru Gyfan Trais yn Erbyn Merched a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV)
- Gweithdy CHTh i drafod cyfleoedd comisiynu Fframwaith Deinamig ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Prawf

### MAI 2020

- APACE
- Bwrdd Strategol VAWDASV
- Cyfarfod Bwrdd Cydweithio Tri Heddlu
- Cyfarfod Cyffredinol y Gymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throsedd (APCC)

### MEHEFIN 2020

- Pwyllgor Trosolwg ar y Cyd y Gogledd-orllewin
- Cyfarfod CHTh Rhanbarthol y Gogledd-orllewin
- Cyfarfod Plismona yng Nghymru
- Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
- Bwrdd Strategol VAWDASV
- Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol APACE

### GORFFENNAF 2020

- Cyfarfod Rhithiol Ymddiriedolaeth yr Heddlu a'r Gymuned (PACT) – ar-lein
- Mynychu Arddangosiad Drôn – Bae Colwyn
- Cynllunio a Chynaliadwyedd VAWDASV yn y Dyfodol
- Grŵp Trawsbleidiol i Ogledd Cymru yn y Senedd
- Gweminar Diwygio
- Bwrdd Cydweithio Tri Heddlu
- Cyfarfod Cyffredinol APCC
- Cyfarfod Camau Cynnar gyda'n Gilydd
- Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol
- Panel Ymgynghorol Camau Cynnar gyda'n Gilydd

### AWST 2020



- Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol – Bae Colwyn
- Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan

### MEDI 2020

- Gweithgor Trosolwg Llywodraeth Cymru
- Cyfarfod APACE
- Panel Ymgynghorol Camau Cynnar gyda'n Gilydd
- Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg ar y Cyd y Gogledd-orllewin
- Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
- Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol
- Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Cymru
- Seminar APACE/PACCTS 2020

# BLWYDDYN O YMGYSYLLTU

## HYDREF - MAWRTH 2021

### HYDREF 2020



- Llun gyda Sign, Sight and Sound – Bae Colwyn (Conwy)
- Digwyddiad agoriadol BAWSO ar-lein (Wrecsam)
- Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Trosedd ac Anhrefn Conwy – ar-lein (Conwy)
- Grŵp Trawsbleidiol ar Blismona
- Diwrnod Hyfforddiant Llywodraeth Cymru / Uned Cydgysylltu'r Heddlu

### TACHWEDD 2020

- Cyfarfod gyda Jack Sergeant AoS – ar-lein (Glannau Dyfrdwy)
- Digwyddiad Ymgysylltu â'r Trydydd Sector – ar-lein (Pobman)
- Digwyddiad Rhuban Gwyn – Cei Connah (Sir y Fflint)
- Cynhadledd Colli Llais Colli Bywyd
- Grŵp Trawsbleidiol Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Pwyllgor Trosolwg Strategol Tri Heddlu Niche
- Cyfarfod Cydlynwyr a Chadeiryddion Rhanbarthol Cymru Gyfan VAWDASV
- Bwrdd Cydweithio Arfordir y Gorllewin
- Panel Ymgynghorol Camau Cynnar gyda'n Gilydd

### RHAGFYR 2020

- Cyfarfod Ymddiriedolaeth PACT – ar-lein
- Bwrdd Partneriaeth Plismona Cymru
- Cyfarfod Plismona yng Nghymru
- Cyfarfod APACE
- Cyfarfod CHTh Gogledd Orllewin
- Pwyllgor Trosolwg ar y Cyd y Gogledd-orllewin
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru

### IONAWR 2021

- Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol
- Bwrdd Craffu Checkpoint Cymru
- Bwrdd Cadeiryddion Partneriaethau Strategol
- Bwrdd Bregusrwydd a Chamfanteisio
- Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel
- Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan

### CHWEFROR 2021



- Cyfarfod PACT
- Eglwys Llanbeblig, Caernarfon (Eich Cymuned Eich Dewis)
- Clwb Bocsio Amatur Clwyd, Y Rhyl (Sir Ddinbych)
- Hyfforddiant Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Cyfarfod APACE
- Cyfarfod Comisiynwyr a Thimau Gweithredol Cymru gyfan
- Gweminar Cyffuriau a Thrais
- Panel Ymgynghorol Camau Cynnar gyda'n Gilydd
- Grŵp Llywio Cyfiawnder Troseddol

### MAWRTH 2021




- Clwb Criced Brymbo, (Wrecsam)
- Caeau chwarae Llanferres (Sir y Fflint)
- Siaradwr Gwadd ar gyfer Myfyrwyr Prifysgol Glyndŵr, (Wrecsam)
- Hosbis Dewi Sant, Llandudno, (Conwy)
- DASU, Y Rhyl (Sir Ddinbych)
- Sesiwn Ymgyfarwyddo â Drylliau

## Digwyddiad Ymgysylltu â'r Trydydd Sector

Ar 19 Tachwedd 2020 cynhaliais fy Nigwyddiad Ymgysylltu â'r Trydydd Sector ar-lein cyntaf er mwyn ymgysylltu ar y cyd â sefydliadau o'r sector gwasanaethau gwirfoddol a chymunedol. Oherwydd y pandemig coronafeirws parhaus roedd y digwyddiad ychydig yn wahanol i'r arfer ac fe'i cynhaliwyd fel Cynhadledd Zoom gyda chynrychiolwyr o'r trydydd sector yn gwylio'r digwyddiad y rhithiol ac yn ymgysylltu trwy'r adran Holi ac Ateb.

Prif bwrpas y digwyddiad oedd ymgysylltu â rhanddeiliaid a chael eu hadborth ar fy mlaenoriaethau plismona a darparu trosolwg o sut y mae Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi cefnogi gwasanaethau trwy gydol Pandemig Covid 19. Cynhaliwyd y digwyddiad ar-lein gyda 49 yn bresennol, yn cynrychioli 29 o sefydliadau lleol a rhanbarthol a chafwyd adborth hynod gadarnhaol.




## Colli Llais Colli Bywyd

Ar yr 2il o Dachwedd 2020 cynhaliais y gynhadledd ar-lein 'Colli Llais Colli Bywyd'. Nod y gynhadledd oedd codi ymwybyddiaeth a chael cefnogaeth ar gyfer gweithredu peilot Triniaeth â Chymorth Heroin yng Ngogledd Cymru.

Mae Triniaeth â Chymorth Heroin, neu HAT, yn driniaeth feddygol i bobl sydd â dibyniaeth hirdymor ar Heroin sydd wedi methu ag ymateb i unrhyw driniaeth gyffuriau arall. Mae dibyniaeth Heroin hirsefydlog yn un o achosion allweddol troseddau dwyn ac mae ganddo ganlyniadau dinistriol i'r unigolyn sy'n ddibynnol ar y cyffur, eu teuluoedd a'r gymuned yn ogystal â chreu galw parhaus ar blismona, iechyd a'r system cyfiawnder troseddol. Trwy newid ffocws ein hymateb i fod yn ddibynnol ar gyffuriau gallwn atal niwed a lleihau troseddu.

Rhoddodd y siaradwyr yn y gynhadledd drosolwg helaeth o fanteision Triniaeth â Chymorth Heroin, profiadau personol a'r wyddoniaeth y tu ôl i'r rhaglen. Roedd y siaradwyr yn cynnwys:

- Tracey Breheny – Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Bregus, Llywodraeth Cymru
- Yr Athro Syr John Strange - Cyfarwyddwr y Ganolfan Dibyniaeth Genedlaethol a Phennaeth yr Adran Dibyniaeth yng Ngholeg King's Llundain
- Daniel Ahmed – Partner Clinigol, practis meddyg teulu arbenigol Foundations sy'n darparu cefnogaeth i ddefnyddwyr cyffuriau.
- George Charlton – Sylfaenydd Hyfforddiant ac Ymgynghoriaeth George Charlton - sy'n arbenigo mewn cyflenwi rhaglenni atal niwed cyffuriau ac alcohol arloesol a deinamig.

Mynychwyd y gynhadledd gan fwy na 130 o bobl o amrediad o wahanol wasanaethau. Clywodd mynychwyr am fuddion triniaeth â chymorth heroin sy'n cynnwys lleihau troseddu ac ailadrodd troseddu, llai o ddedfrydau tymor byr, llai o ymddygiad gwrthgymdeithasol a pharaffernalia cyffuriau, gwell canlyniadau triniaeth i ddefnyddwyr anodd eu cyrraedd a tharfu ar weithgaredd gangiau troseddau cyfundrefnol.

Rwy'n parhau i fod yn ymrwymedig i achub bywydau, gwella iechyd a hybu rhagolygon i'r dyfodol trwy sicrhau bod dibyniaeth ar gyffuriau yn cael ei ystyried yn fater iechyd cyhoeddus ac nid yn broblem cyfiawnder troseddol.



# BLAENORIAETHAU STRATEGOL Y CYNLLUN HEDDLU A THROSEDD - ADRODDIAD CYNNYDD 2020/21:

Fel y Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol plismona yng Ngogledd Cymru. Mae'r cyfeiriad strategol hwnnw i'w weld yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd. Y Prif Gwnstabl sy'n gyfrifol am bob mater gweithredol ac am gyflawni fy Nghynllun.

Bydd y rhan hon o'r adroddiad blynyddol yn canolbwyntio ar y cynnydd sydd wedi digwydd yn ystod 2020/21 o'i gymharu â'r blaenoriaethau strategol sydd i'w gweld yn fy Nghynllun.

Cafodd fy amcanion heddlu a throsedd eu datblygu mewn ymateb i'r meysydd lle'r oedd y bygythiad, risg a niwed mwyaf yn wynebu cymunedau yng Ngogledd Cymru. Mae'r amcanion hefyd wedi'u seilio ar broses ymgynghori helaeth. Nid wyf yn cytuno gyda chael gormod o flaenoriaethau, mae natur hynny o reidrwydd yn golygu na all popeth fod yn flaenoriaeth.

Rwyf wedi pennu pum maes blaenoriaeth ar gyfer Heddlu Gogledd Cymru.

- Cam-drin Domestig
- Cam-drin Rhywiol (yn cynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant)
- Caethwasiaeth Fodern
- Troseddu Cyfundrefnol
- Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel

Yn ogystal, yn 2018/19 cyflwynais nod sy'n pontio ar draws popeth arall sef 'lleihau cam-fanteisio troseddol ar bobl fregus'. Mae Cynllun Cyflawni'r Prif Gwnstabl yn dangos y camau gweithredu penodol y bydd Heddlu Gogledd Cymru yn eu dilyn i gyflawni'r blaenoriaethau hyn. Mae'n werth nodi pwysigrwydd gweithio mewn partneriaeth er mwyn mynd i'r afael â'r rhain. All priority areas present issues beyond policing and an effective response can only be delivered in effective partnership. Mae'r holl feysydd blaenoriaeth yn cyflwyno materion sy'n mynd tu hwnt i blismona, a phartneriaeth effeithiol yw'r unig ffordd o ymateb yn effeithiol iddynt.

## Cam-drin Domestig

Mae cam-drin domestig wedi parhau'n flaenoriaeth allweddol yn fy Nghynllun Heddlu a Throsedd trwy gydol fy nghyfnod yn y swydd. Pan fyddaf yn craffu ar berfformiad Heddlu Gogledd Cymru o ran cam-drin domestig, bydd fy swyddogion a minnau'n canolbwyntio ar y cwestiynau a ganlyn:

- A ydym yn deall y lefelau o adrodd am gam-drin domestig a deilliannau troseddau?
- A yw Heddlu Gogledd Cymru yn ymchwilio'n effeithiol i gam-drin domestig?
- A yw'r gwasanaeth sy'n cael ei gynnig i bobl sy'n dioddef cam-drin domestig yn ateb eu hanghenion?

Fodd bynnag, mae'r effaith a'r materion sy'n codi o achosion o gam-drin domestig yn aml yn llawer ehangach na dim ond gwaith plismona, a dim ond mewn partneriaeth y gellir darparu ymateb effeithiol. Gan gadw hyn mewn cof, fe wnaeth Bwrdd Bregysrwydd ac Ecsploetiaeth Gogledd Cymru, sydd newydd gael ei gyfuno, gytuno ar nifer o amcanion partneriaeth. Mae'r amcanion hyn, a ganlyn, yn ymwneud yn benodol gyda Thrais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV):

- Cynyddu ymwybyddiaeth a herio agweddau tuag at drais yn erbyn merched, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Gogledd Cymru.
- Cynyddu ymwybyddiaeth ymysg plant a phobl ifanc o bwysigrwydd perthnasau diogel, cyfartal ac iach, a bod ymddygiad o gam-drin yn anghywir bob tro.
- Canolbwyntio mwy ar wneud troseddwyr yn atebol a darparu cyfleoedd i newid eu hymddygiad, ar sail diogelwch y bobl sy'n dioddef.
- Rhoi blaenoriaeth i ymyrryd ac atal yn gynnar.
- Bod pobl broffesiynol perthnasol yn cael eu hyfforddi i ymateb yn effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr ac i'r rhai sydd wedi mynd trwy'r profiad (goroeswyr).
- Darparu mynediad cyfartal i ddioddefwyr at wasanaethau sydd ag adnoddau priodol, o ansawdd uchel, wedi'u harwain gan anghenion, wedi'u seilio ar gryfder ac yn ymatebol o ran rhywedd, ar draws Gogledd Cymru.

Roedd pryder yn genedlaethol yn ystod y cyfnod clo Covid-19 cyntaf yng ngwanwyn 2020 am fod tystiolaeth yn genedlaethol yn awgrymu y gallai fod mwy o gam-drin yn digwydd nag oedd yn cael ei adrodd yn ei gylch. Roedd hynny er bod nifer yr achosion o gam-drin domestig yr adroddwyd amdanynt wedi gostwng ar y dechrau. Hefyd fod camdriniaeth o'r fath wedi cynyddu mewn gwirionedd am fod y dioddefwyr yn cael eu cadw, heb allu dianc, am gyfnodau hir yn y cartref gyda'r troseddwyr. Gyda hyn mewn cof, fe wnaeth fy nhîm a minnau weithio'n agos gyda swyddogion o Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid eraill i sicrhau bod y dioddefwyr yn ymwybodol bod cefnogaeth ar gael iddynt ddydd a nos, bob dydd, trwy gydol y pandemig, ac na ddylai'r cyfnod clo atal pobl rhag adrodd am y fath droseddau a chael cefnogaeth.

Er i nifer yr achosion cam-drin domestig ostwng ar y dechrau, roedd cynnydd i'w weld ym misoedd Mehefin a Gorffennaf wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu codi. Er mwyn gweld pa mor gywir oedd y ffigyrau, fe wnaethpwyd gwaith archwilio i fater cofnodi Troseddau Cam-drin Domestig a samplo ar hap o ddigwyddiadau o Gam-drin Domestig, i weld a oedd digwyddiadau'n cael eu cofnodi'n gywir.

Rwy'n gyfrifol am gomisiynu Gwasanaeth Cynghorydd Rhanbarthol Annibynnol ar Drais Domestig Gogledd Cymru (IDVA). O gofio hynny, mae fy nhîm a'n partneriaid wedi gweithio'n galed yn ystod y flwyddyn heriol hon i sicrhau bod rota yn parhau i weithredu, fel bod pobl IDVA ar gael ar alwad. Ar ddechrau'r flwyddyn hon fe estynnodd y Gwasanaeth IDVA Rhanbarthol ei waith o bum diwrnod o'r wythnos i saith diwrnod, ac mae cefnogaeth ar gael nawr 24 awr y dydd o ganlyniad i ariannu oddi wrth fy swyddfa fi. Gan fod arbenigwyr wedi rhybuddio y gallai cadw pellter cymdeithasol yn y tymor hir sbarduno cynnydd mewn trais domestig, roedd hon yn adeg hollbwysig i ymestyn y gwasanaeth IDVA.

Mae'r ddau sy'n darparu'r gwasanaeth, sef Gorwel yn yr Ardal Orllewinol a DASU yn yr Ardaloedd Canolog a Dwyreiniol, wedi gallu cynnal gwasanaeth effeithiol a chyson trwy gydol y flwyddyn. Doedd hyn ddim yn hawdd o gwbl i'w wneud, ac rwy'n hynod ddiolchgar i'r ddau gorff yma a'u staff am eu hymroddiad yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Fe ofynnwyd ddechrau'r flwyddyn i bob un o'r gwasanaethau roeddem wedi'u comisiynu, yn cynnwys gwasanaethau Cam-drin Domestig, i roi diweddariad bob wythnos i fy swyddogion o ran eu cynlluniau parhad gyda Covid-19. Roedd yr adroddiadau diweddaru hyn yn gadael i mi a'r cyrff eraill oedd yn ariannu wybod am unrhyw faterion o ran capasiti staffio, y galw am wasanaeth a rhestrau aros. Ymhellach ymlaen, fe ddyrannwyd arian pellach o'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru i Dîm Comisiynu VAWDASV. Roedd yr arian hwnnw ar gyfer ymgymryd â nifer o gyfarfodydd comisiynu o hirbell, i gefnogi gwasanaethau newydd a rhai oedd yn bodoli'n barod yn ymwneud â thrais domestig a thrais rhywiol.

O ganlyniad i'r heriau a osodwyd gan y pandemig, fe ddarparodd y Weinyddiaeth Gyfiawnder a Llywodraeth Cymru arian ychwanegol i wasanaethau VAWDASV. Fe aeth yr arian ychwanegol hwn i DASU a Gorwel er mwyn cefnogi eu gwaith mewn llochesi ar draws Gogledd Cymru. Roedd yn ofynnol cwblhau'r holl waith comisiynu ychwanegol hwn mewn cyfnod byr iawn o amser, a sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau i fod ar gael i bobl oedd yn dioddef o drais domestig. Dim ond un enghraifft yw hon o weithio ardderchog mewn partneriaeth er budd y gymuned ehangach, yn ystod y cyfnod arbennig o heriol hwn.

Trwy gydol y pandemig, mae swyddogion o Uned Diogelu Pobl Fregus Heddlu Gogledd Cymru (PVPU) wedi bod mewn cysylltiad bob dydd gyda'r Llinell Gymorth Cam-drin Domestig i drafod capasiti llochesi ar draws Gogledd Cymru a'r gefnogaeth sydd ar gael. Byddant hefyd yn trafod yn wythnosol gyda Gorwel a DASU i weld beth yw capasiti a gallu gwasanaethau cynnal ar draws Gogledd Cymru. Mae gweithredu felly wedi sicrhau nad yw'r cyfnod clo wedi cael effaith niweidiol ar ddarparu gwasanaethau i ddioddefwyr.

Mae Ditectif Arolygwyr o'r tair ardal yn y rhanbarth wedi parhau i gyfarfod yn aml gyda rheolwyr gwasanaethau prawf i drafod pobl rydym yn gwybod eu henwau lle mae'r risg uchaf o niwed. Mae hynny'n cynnwys pobl sy'n Cam-drin yn Ddomestig, sef rhai maen nhw wedi parhau i gadw golwg arnynt trwy gydol y pandemig yn ystod eu dyletswyddau arferol. Bydd ymweliadau ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Prawf cenedlaethol yn parhau i ddigwydd lle gwelir bod hynny'n ychwanegu gwerth, mewn ymdrech i atal troseddu pellach.

Rwy'n hynod falch bod pob Awdurdod Lleol bellach yn ymwneud gydag Operation Encompass. Bob tro bydd swyddogion yn mynd i leoliad lle mae digwyddiad domestig, bydd ysgol y plentyn/plant yn cael gwybod y bore wedyn y bu digwyddiad yng nghartref y plentyn. Does dim gwybodaeth bellach na hynny'n cael ei rhoi, ond mae'n galluogi athrawon i gefnogi'r disgyblion perthnasol. Mae'r adborth ar hyn yn gadarnhaol, ac achosion yn parhau i gael eu cyfeirio yn ystod y cyfnod clo, gydag athrawon yn cysylltu â'r plant trwy ddefnyddio ap yr ysgol, ar lein neu dros y ffôn. Mae Wrecsam hefyd wedi treialu estyniad i'r cynllun, fyddai'n golygu bod modd hysbysu os bydd plentyn wedi bod mewn unrhyw gysylltiad gyda'r heddlu, yn hytrach na dim ond digwyddiad Cam-drin Domestig.

Cafodd peilot MARAC ei gwblhau yn Sir y Fflint, gan ddechrau defnyddio cyfarfodydd wythnosol o hirbell. Gan fod cael trafodaethau bob dydd/wythnos yn annog cyfleoedd i ymyrryd yn gynnar, mae llai o achosion nawr yn cael eu symud ymlaen i'r MARAC misol o'i gymharu ag o'r blaen. Mae'r broses 'Marac Dyddiol' erbyn hyn yn digwydd ar draws y llu heddlu cyfan. Mae'r ymgysylltiad gyda'r cyfarfodydd yn gadarnhaol ac mae modd rheoli'r galw yn y cyfarfodydd MARAC misol. Erbyn hyn mae arolygydd penodol yn gyfrifol am bob MARAC, sy'n sicrhau cysondeb ar draws yr holl awdurdodau lleol.

Sylwyd yn arbennig yn ystod y cyfnod clo cyntaf (Mawrth-Mehefin 2020) ar ostyngiad mewn galw o ran trais (gyda neu heb anaf), byrgleriaeth, ysbeilio a throseddau cerbydau. Ond i'r gwrthwyneb, erbyn Medi 2020 roedd Stelcian ac Aflonyddu yn parhau i gynyddu er gwaethaf cyfyngiadau'r cyfnod clo, ac yn 30% yn uwch na'r un cyfnod y flwyddyn ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'n werth nodi yma mai un peth achosodd y cynnydd sylweddol hwn yw newid yn y cofnodi, a ddigwyddodd yn Ebrill 2020. Roedd hynny'n arwain at symud ymddygiad cymell/gorfodi o gael ei ddosbarthu fel ymosod heb anaf i fod yn ei ddosbarth ei hunan o dan stelcian ac aflonyddu. Rwy'n deall mai'r newid yma yn y ffordd o gofnodi sy'n gyfrifol am rywfaint o'r troseddau stelcian/aflonyddu ychwanegol fesul wythnos (a gostyngiad cyfatebol ers Ebrill 2020 mewn troseddau trais heb anaf). I symleiddio hyn, roedd y newidiadau ddigwyddodd yn Ebrill 2020 yn dweud bod rhaid i bob achos lle cafwyd adroddiad am gwrs o ymddygiad rhwng dioddefwr a'u cyn bartner gael ei gofnodi fel stelcian (heblaw am pan fo Cofrestrydd Troseddau'r Heddlu yn fodlon bod y mater yn un o aflonyddu). Mae hyn yn golygu bod rhaid erbyn hyn i unrhyw gwrs o ymddygiad rhwng cyn bartneriaid gael ei gofnodi yn gyntaf fel stelcian.

Mae fy nhîm a minnau wedi bod yn gweithio'n agos gyda Heddlu Gogledd Cymru a'n partneriaid trwy gydol y flwyddyn er mwyn deall yn well beth yw'r rheswm am y cynnydd hwn. Hefyd mae'r heddlu wedi bod yn canolbwyntio ar gynyddu dealltwriaeth ar draws Heddlu Gogledd Cymru o'r defnydd o Orchmynion Amddiffyn Stelcian a darparu hyfforddiant arnynt.

Ym mis Medi 2020 roedd y cyfraddau bodlonrwydd ar gyfer dioddefwyr domestig yn cymharu'n ffafriol gyda rhai dioddefwyr annomestig. Cafwyd Arolwg o Ddioddefwyr Cam-drin Domestig (gyda 474 o bobl yn ymateb iddo) a gynhyrchodd y data canlynol:

- 89.8% yn fodlon gyda'r cysylltiad cyntaf
- 90.2% yn fodlon gyda gweithredu cyntaf yr heddlu
- 92.3% yn fodlon gyda'r cysylltiad gyda'r Swyddog Cam-drin Domestig
- 66.9% yn fodlon gyda'r gwaith dilyn ymlaen
- 84.8% yn fodlon yn gyffredinol

Cafodd yr arolygon o ddioddefwyr cam-drin domestig eu hatal yn Ebrill 2020 (oherwydd cyfyngiadau Covid-19) ond dechreuodd yr arolygon eto ym mis Awst.

Cafodd Grŵp Goroeswyr yn Cynghori Gwasanaethau ei sefydlu. Mae'r grŵp hwn yn gyfle i'r heddlu weithio gydag asiantaethau eraill i gael adborth ar y ddarpariaeth o wasanaethau, o'r cysylltiad cyntaf hyd at euogfarn/dyfarnu'n ddieuog. Hyd yma cafodd tri chyfarfod eu cynnal.

Mae trafodaethau wedi ailddechrau i ddarparu hyfforddiant 'DA Matters' ar y cyd gyda Safelives, gan ragweld lansio hynny yn haf 2021 wrth i'r amserlenni hyfforddiant gael eu hadfer oddi wrth effeithiau Covid-19.

Mae Deddf Coronafeirws 2020 wedi ehangu'r cyfle i ddefnyddio cysylltiad fideo a sain mewn gweithgareddau llys. O ganlyniad, cafodd cyfleusterau cyswllt fideo eu canfod ar draws y rhanbarth, fydd yn golygu y gall dioddefwyr Cam-drin Domestig roi eu tystiolaeth yn rhithiol yn y llys. Rydym ni wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i ddatblygu'r broses i'w dilyn wrth drefnu i ddefnyddio cysylltiad o hirbell. Mae'n hanfodol bod tystion yn cael cefnogaeth trwy gydol y broses a bod safleoedd sy'n bellach i ffwrdd yn cael eu profi cyn cynnal achosion. Daeth arian oddi wrth Lywodraeth Cymru i brynu'r offer sydd ei angen i gefnogi defnyddio'r cyfleusterau hyn.

## Cam-drin Rhywiol

Mae Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru (RASASC), sef corff rwy'n darparu arian craidd iddo, wedi ennill Nod Ansawdd Rhaglen Achredu Annibynnol Lime Culture am gyrraedd y Safonau Ansawdd ar gyfer Cefnogi Dynion sy'n Ddioddefwyr/Goroeswyr Trais Rhywiol.

Bydd y ganolfan yn cynnig therapi a chefnogaeth i unrhyw un, o unrhyw rywedd a thros dair blwydd oed, mae eu bywydau wedi cael eu heffeithio gan gamdriniaeth rywiol plant, treisio, cam-drin rhywiol neu unrhyw ffurf o drais rhywiol. Mae'n darparu gwasanaeth ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Gwynedd, Sir y Fflint, Ynys Môn, Conwy, Wrecsam a Sir Ddinbych).

Y flwyddyn ddiwethaf fe gafodd y gwasanaeth y nifer uchaf erioed o achosion wedi'u cyfeirio ato, sef 628 - yn cynnwys 78 o ddynion, sy'n 14% o'r cyfanswm. Rwy'n falch iawn o ymdrechion RASASC Gogledd Cymru a'r gwahaniaeth anferth mae cwnselwyr yn ei wneud i fywydau dioddefwyr. Mae'r achrediad Nod Ansawdd yn dystiolaeth o arbenigedd, penderfyniad a sgiliau tîm RASAC. Mae hefyd yn sicrhad pellach i'r dioddefwyr a'r bobl sydd wedi dod trwy'r profiad bod gwasanaethau cwnsela o ansawdd uchel yn cael eu cynnig, yn enwedig o ran trais rhywiol gwryw.

Mae rhwng 15% a 25% o'r rhai sy'n cael eu cyfeirio at RASAC yn gleientiaid sy'n ddynion, ond rydym yn gwybod nad yw hynny'n adlewyrchiad cywir o beth sy'n digwydd yng Nghymru. Nid ydym yn cyrraedd at bob un dyn sydd wedi bod trwy'r profiad, ac mae o gymorth mawr cael cyfleoedd fel hyn i gynyddu ymwybyddiaeth a rhoi cyhoeddusrwydd.

Ar ddechrau'r cyfnod clo, roedd gostyngiad yn y Troseddau Rhywiol a gofnodwyd, ac mae wedi bod yn sefydlog ar lefel is ers hynny. Fodd bynnag, rwyf wedi bod yn ymwybodol, er bod gostyngiadau mewn troseddau rhywiol, bod gan Ogledd Cymru lefelau uchel o droseddu rhywiol o'i gymharu â lluoedd eraill.

Rwyf wedi bod yn ymwybodol o'r mater hwn ers nifer o flynyddoedd ond yn ystod Cyfarfodydd Perfformiad Gweithredol yr Heddlu, ganol 2019, fe symudwyd ymlaen i gael adolygiad o'r sefyllfa. Roedd hynny er mwyn cael gwell dealltwriaeth o beth oedd yn ei achosi. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, darparwyd adroddiad ystadegol helaeth i gyfarfod perfformiad misol Tachwedd. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio mai beth oedd ar y cyfan yn gyrru'r cynnydd mewn cofnodion o droseddau rhywiol oedd buddsoddiad mewn ymchwilio i droseddau rhywiol, a newidiadau i'r arfer wrth gofnodi. O ganlyniad i'r adroddiad hwn, comisiynwyd dau ddarn pellach o ddadansoddiad. Roedd y cyntaf ohonynt yn cadarnhau canfyddiadau'r adroddiad cyntaf mewn mwy o fanylder. Roedd yr ail ddadansoddiad yn cadarnhau nad oedd unrhyw batrymau o droseddu neu weithgareddau wedi'u trefnu yn digwydd oedd yn benodol yn effeithio ar Ogledd Cymru, boed rheiny'n ddaearyddol, math o ddioddefwr neu math o drosedd, i olygu bod angen ymateb mewn ffordd wahanol.

Rwyf wedi cael fy sicrhau mai newidiadau yn y prosesau cyfeirio, tynhau'r drefn trydydd parti o adrodd a dechrau defnyddio erfyn newydd i asesu risg (THRIVE) yng Ngogledd Cymru sydd wedi arwain at gynnydd mewn cofnodion o droseddau rhywiol. Rwy'n credu ei bod yn werth cadw mewn cof yr Arolwg o Droseddau yng Nghymru a Lloegr. Mae hynny'n dangos bod treisio ac ymosodiadau rhywiol yn llawer mwy niferus nag sy'n cael eu hadrodd (wnaeth 83% o'r dioddefwyr y gofynnwyd iddynt ddim adrodd am y drosedd wrth yr heddlu). Hefyd nad yw'r ffigyrau cofnodion troseddau yn gyffredinol yn dangos mewn gwirionedd pa mor niferus yw troseddau rhywiol. Yn ogystal, bydd unrhyw wasanaeth heddlu sy'n gallu gwella'r lefelau adrodd yn gweld effaith sylweddol ar y troseddau sy'n cael eu cofnodi. Mae'r arolwg, fel y mae, yn dangos na fu unrhyw newid sylweddol (ar draws Cymru a Lloegr) mewn amlder treisio ac ymosodiadau rhywiol ar gyfer oedolion ers 2005.

Dyma rai o'r prif bwyntiau o'r arolygiad thematig ar y cyd rhwng HMICFRS a Gwasanaeth Erlyn y Goron ar fater Treisio, ym mis Hydref 2020:

- Mae'r ymateb cyntaf i dreisio yn digwydd yn brydlon ac effeithiol
- Cydnabyddiaeth i fedrusrwydd a gwybodaeth tîm Amethyst
- Cydnabyddiaeth nad yw'r tîm yn gallu rheoli unrhyw oedi a achosir gan ddeunydd 3ydd parti (fel meddygol a fforensig)
- Mae perthynas effeithiol rhwng Gwasanaeth Erlyn y Goron a Heddlu Gogledd Cymru (nid yw hynny i'w weld mewn rhai lluoedd).



## Caethwasiaeth Fodern

Rwy'n parhau i fonitro sefyllfa caethwasiaeth fodern yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Yn genedlaethol, rwyf wedi cael golwg ar waith llawer o asiantaethau yn cynnwys y Swyddfa Gartref, Rhaglen Caethwasiaeth Fodern a Throsedd Mewnfudo Cyfundrefnol (MSOICP), yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, y Comisiynydd Gwrth-gaethwasiaeth Annibynnol a'r Rhwydwaith Cenedlaethol yn Erbyn Caethwasiaeth a Masnachu Pobl. Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn sylfaenol i'r ffordd o weithredu ar gaethwasiaeth fodern yng Ngogledd Cymru.

Cafwyd adolygiad strategol o fyrddau cydweithio Gogledd Cymru. Yn dilyn hynny, cyfunodd Grŵp Caethwasiaeth Fodern Rhanbarthol Gogledd Cymru gyda'r grŵp strategol Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) i ddod yn "Fwrdd Bregusder a Cham-fanteisio Gogledd Cymru". Mae'r materion sy'n cael sylw o dan yr agenda hwn yn eang ac yn heriol.

Cafodd Strategaeth Bregusder a Cham-fanteisio Gogledd Cymru ei datblygu gan y Bwrdd newydd, a chynllun darparu fydd yn cael ei ddefnyddio i ddal pob un o'r partneriaid yn atebol ar y rhaglen bregusder a cham-fanteisio. Nod y Bwrdd uwchlaw popeth arall yw sicrhau gweithredu effeithiol mewn partneriaeth i daclo caethwasiaeth fodern, trais yn erbyn merched a mathau eraill o gam-fanteisio.

Cadeirydd y Bwrdd yw Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Rwy'n falch o faint o waith gafodd ei wneud ar y dechrau ac wedi fy sicrhau y bydd y gwahanol agweddau o fregusder a cham-fanteisio'n cael sylw, cael eu taclo a'u monitro trwy gyfrwng gwaith y Bwrdd.

## Perfformiad

Rwy'n parhau i weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru o ran eu perfformiad mewn mynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern. Rwyf wedi bod yn falch o weld eu defnydd o syniadau newydd wrth weithredu'r pwerau sydd ar gael o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015. Cafodd Gorchymyn Risg Caethwasiaeth a Masnachu Pobl ei gyhoeddi eleni, sy'n gyfanswm o dri yn ystod y 18 mis diwethaf. Yn ogystal, fe gymrodd yr Heddlu gamau ar fater torri Gorchymyn fel hyn. Rwy'n falch o weld Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud y defnydd gorau o'r pwerau o dan y Ddeddf Caethwasiaeth Fodern.




Eleni rwyf hefyd wedi bod yn falch o gael arian ychwanegol oddi wrth y Rhaglen Caethwasiaeth Fodern a Throseddau Mewnfudo Cyfundrefnol (MSOICP) ar gyfer ymgyrch gan yr heddlu i gynorthwyo i ganfod dioddefwyr bregus o gam-drin rhywiol. Mae hwn yn brosiect yn parhau am flwyddyn, a bydd y canlyniadau llawn yn hysbys yn Ebrill 2022.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf cyfnod clo cenedlaethol ac effaith pandemig byd-eang, mae nifer yr achosion sydd wedi'u cyfeirio gan Heddlu Gogledd Cymru i'r Peirianwaith Cyfeirio Cenedlaethol wedi parhau'n hynod o gyson. (Mae'r Peirianwaith Cyfeirio Cenedlaethol yn drefn ar gyfer cofnodi caethwasiaeth fodern). Yn 2019 cyfeiriwyd 97 achos ato, ac yn 2020 roedd 94. Mae'r adrodd wedi digwydd yn bennaf mewn perthynas â cham-fanteisio troseddol, gyda dros 56% yn ymwneud â'r math yma o drosedd.

Roedd cynnydd eleni yn nifer y cyfeiriadau ato o ran cam-fanteisio rhywiol, gyda 15 yn ymwneud yn benodol â cham-fanteisio rhywiol (o'i gymharu â 5 y flwyddyn ddiwethaf) a 9 arall yn ymwneud â cham-fanteisio rhywiol wedi'i gyfuno gyda ffurfiau eraill o gam-fanteisio.

Mae'n werth nodi y cafwyd yn gyffredinol yr un lefelau adrodd am gaethwasiaeth fodern, er gwaethaf y pandemig. Felly mae'n deg cymryd bod y lefelau adrodd am y flwyddyn i ddod yn debygol o gynyddu.

Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi symud ymlaen gydag adolygiad i weld a yw pob cyfle i erlyn am Gaethwasiaeth Fodern yn cael ei gymryd.

## Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol

### Llinellau Cyffuriau a Phlant sy'n Derbyn Gofal

Ers i'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol gyhoeddi'r asesiad cyntaf o'r bygythiad o linellau cyffuriau yn 2015, mae'r heddlu, awdurdodau lleol, gwleidyddion, elusennau a phobl academaidd wedi gorfod symud yn gyflym iawn i ddatblygu dealltwriaeth o linellau cyffuriau. Er mwyn atal cam-fanteisio ar blant bregus, mae angen i ymarferwyr a'r rhai sy'n llunio polisi wybod sut mae llinellau'n gweithredu. Mae angen gwybod beth yw eu model busnes, y dulliau o dynnu pobl i mewn a cham-fanteisio arnynt, a'r trais sy'n rhan annatod o'r llinellau.

Mae Crest Advisory yn arbenigwyr mewn trosedd a chyfiawnder - yn defnyddio mesur cyfartal o ymchwil, strategaeth a chyfathrebu - yn gweithio ar draws y sectorau trosedd a chyfiawnder. Yn nechrau 2020 fe ddechreuodd Crest ar brosiect ymchwil, wedi'i ariannu gan Ymddiriedolaeth Hadley. Y nod oedd cyfrannu at y sail o dystiolaeth trwy ganolbwyntio ar un grŵp sylweddol o blant a phobl ifanc oedd wedi'u tynnu i mewn i linellau cyffuriau, sef plant yn derbyn gofal a phobl ifanc mewn llety rhannol-annibynnol sydd heb ei reoleiddio.

Daeth Crest i gysylltiad â mi ar y dechrau i ofyn am gefnogaeth gyda'r prosiect. Roedd Crest eisiau ymchwilio i gam-fanteisio troseddol ar blant yn derbyn gofal mewn dwy ardal heddlu, sef gogledd Cymru a Glannau Merswy, am fod y mwyafrif o weithredu llinellau cyffuriau yng ngogledd Cymru'n deillio o ardal Glannau Merswy.

Daeth fy swyddfa a chydweithwyr yn Heddlu Gogledd Cymru yn brif lwybr ar gyfer casglu data a gwybodaeth ar gyfer y prosiect ymchwil; roeddem yn cefnogi heb unrhyw amheuaeth, gan gredu bod egluro sut mae plant a phobl ifanc mewn llety rhannol-annibynnol yn cael eu cam-fanteisio ar ddau ben y llinell o gymorth, i'r bobl sy'n llunio polisi ac ymarferwyr, i ddiogelu plant bregus.

Ym mis Tachwedd 2020, ar ôl misoedd o waith, fe gyhoeddodd Crest Advisory eu hadroddiad ar linellau cyffuriau a phlant sy'n derbyn gofal. Y prif ganfyddiadau yn yr adroddiad yw bod plant sy'n derbyn gofal yn gyfran uwch o'r llinellau cyffuriau nag ydynt o'r boblogaeth yn gyffredinol – ond nad ydynt yn cael eu canfod yn systematig gan yr heddlu nag awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad yn rhoi tri phrif egwyddor eang ar gyfer adolygu, a chwe argymhelliad allweddol ddylai lywio ymateb Llywodraeth Ei Mawrhydi i daclo llinellau cyffuriau, am ei fod yn effeithio ar bob plentyn a pherson ifanc.

Mae atal cam-fanteisio ar blant a phobl ifanc trwy ddelio cyffuriau mewn llinellau cyffuriau yn rhan sylweddol o fy mlaenoriaethau fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n parhau i weithio gyda phartneriaid i leihau'r defnyddio a chamdriniaeth o blant a phobl ifanc, gan ddangos y ffordd tuag at gadw pob plentyn a pherson ifanc yn fwy diogel yn y gymuned.

### Cyffuriau

Mae Naloxone yn gyffur sy'n gallu atal effeithiau opioidau fel Heroin, Methadone, Opium, Codeine, Morphine a Buprenorphine. Mae Naloxone yn gallu achub bywyd os caiff ei ddefnyddio'n fuan ar ôl i unigolyn gael gorddos o opioidau. Cafodd Naloxone ei ddefnyddio mewn argyfwng gan bobl feddygol am lawer o flynyddoedd.

Mae gen i ymrwymiad i fod yn rhagweithiol yn ein ffordd o fynd i'r afael â defnydd cyffuriau problemus yn ein cymunedau. Mae hynny trwy leihau niwed, yn ogystal â chwalu syniadau ffug, ac ar yr un pryd parhau i gynnal ein hethos o gadw pobl yn ddiogel yn ein hardaloedd lleol.

Cafodd y syniad o'n swyddogion yn cario Naloxone fel rhan ychwanegol o offer i achub bywydau ei ystyried yn aml a'i ystyried yn ofalus iawn. Ar ôl ymgynghori gydag amrediad o bartneriaid, dechreuodd cyfnod prawf o chwe mis yn Sir y Fflint ar 5 Mawrth, 2020, gyda deuddeg o swyddogion wedi'u hyfforddi i ddefnyddio Naloxone trwy ei chwistrellu i'r trwyn.

Roedd y cyfnod prawf yn llwyddiant mawr, gan achub dau fywyd o ganlyniad. Ar adeg ysgrifennu hwn, rwy'n hynod falch y bydd y gwaith o estyn y defnydd o Naloxone allan ar draws rhanbarth cyfan Heddlu Gogledd Cymru yn dechrau ymhen ychydig.






## Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel

### Troseddau Casineb

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae cynnydd cyffredinol o 21.3% wedi digwydd mewn troseddau casineb. Roedd 1059 o adroddiadau o droseddau casineb eleni, o'i gymharu gydag 873 y flwyddyn ddiwethaf. Digwyddodd y cynnydd mewn adroddiadau yn bennaf yn ystod rhan gyntaf/ganol y flwyddyn, gyda chynnydd cyflym yn ystod y cyfnod clo cyntaf. Fe wnaeth yr adroddiadau sefydlogi'n araf yn ystod rhan olaf y flwyddyn. Mae cynnydd mewn adroddiadau wedi digwydd ar gyfer yr holl nodweddion gwarchodedig - yr un i'w nodi fwyaf yw troseddau casineb yn ymwneud ag anabledd, sydd bron wedi dyblu er bod y niferoedd eu hunain yn parhau'n gymharol isel. Roedd hefyd rywfaint o gynnydd ar adegau yn ystod y cyfnodau clo mewn troseddau casineb a digwyddiadau o wrthdaro Cymreig/Seisnig, yn yr ardal Orllewinol, yn aml fel anghydfod rhwng cymdogion yn ymwneud ag ail gartrefi/cartrefi gwyliau.

Mae Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud gwaith pellach tuag at ddeall natur yr anghydfod mewn cymdogaethau sy'n gallu arwain at ddigwyddiadau casineb, ac mae'n ystyried rôl cyfiawnder adferol ar gyfer hyn. Mae hefyd fesurau ychwanegol wedi cael eu cyflwyno i gynorthwyo i wella ansawdd y gwasanaeth a chynyddu bodlonrwydd dioddefwyr.

### Hybiau Atal

Rwy'n hynod falch o agwedd gadarnhaol Heddlu Gogledd Cymru tuag at Atal Troseddau a chreu'r Hybiau Atal, i gydgysylltu gwaith atal ar draws 3 tîm gyda'u canolfannau yn ardaloedd Dwyreiniol, Canolog a Gorllewinol y llu.

Bydd yr Hwb Atal yn dod â nifer o staff a gwahanol dimau at ei gilydd, yn cynnwys:



- Tîm Dinasyddion yn Plismona
- Tîm Troseddau Gwledig
- Timau Diogelwch Cymunedol
- Cydgysylltwyr Ateb Problemau
- Cydgysylltwyr Unigolion ar Goll
- Cydgysylltwyr Iechyd Meddwl
- Timau Integredig Rheoli Troseddwyr
- Swyddogion Cyfiawnder Ieuenctid
- Tîm Checkpoint
- Dadansoddwyr Partneriaeth

Gan adeiladu ar lwyddiant y Rhaglen Camau Cynnar gyda'n Gilydd, bydd yr Hwb Atal yn parhau i weithio gyda'n staff, partneriaid a chymunedau. Bydd yn gweithio i ganfod yr unigolion allent fod yn agored i droseddu, i ymyrryd yn gynnar, torri'r cylch sy'n arwain at droseddu ac, yn y pen draw, wella bywydau. Bydd hefyd yn gweithio i wyro unigolion i ffwrdd oddi wrth y System Cyfiawnder Troseddol a'r gyfran fechan o droseddwyr sy'n cyflawni'r mwyafrif o droseddau, er mwyn mynd at wraidd eu hymddygiad troseddol ac atal eu patrymau o aildroseddu.

Bydd yr Hwb Atal yn dechrau defnyddio'r drefn newydd uchelgeisiol o rybuddio cymunedol, sef Neighbourhood Alert, sy'n cynnwys cyfathrebu cymunedol ddwy ffordd. Bydd yn cael ei defnyddio i gadw ein cymunedau a'u timau lleol mewn cysylltiad agos a chynorthwyo i ateb pryderon cymunedau a blaenoriaethau lleol.

### Ymyrryd yn Gynnar a Gweithredu ar sail Gwybodaeth am Drawma

Mae adnoddau digidol wedi cael eu cwblhau erbyn hyn, a'u lansio yn Ionawr 2021. Mae hyn yn cynnwys modiwl E-ddysgu o un awr ar gyfer Profiad Niweidiol yn Ystod Plentyndod, a dulliau o weithredu gan wybod am Drawma, a thri adnodd byr 15 munud. Cafodd cardiau Adnoddau Cymorth Cynnar eu dosbarthu, i gynorthwyo pobl sy'n trin galwadau gyda chyfeirio pobl tuag at ddarpariaeth cymorth cynnar ar draws y Rhanbarth. Mae Cydgysylltwyr Ymyrraeth Gynnar wedi parhau i gefnogi Arolygwyr Ardal ac i ymgysylltu gydag unrhyw bartneriaid allweddol i gynorthwyo i gael y ffordd hon o weithio'n rhan annatod o waith y staff gweithredol.

## Diogelwch y Ffyrdd

Mae'r lefel o ddarganfod cyffuriau ar adeg gwneud profion wedi parhau i gynyddu, a mynd yn uwch na'r ffigyrau a welwyd y flwyddyn cynt, sef 2019. Roedd gostyngiad eleni yn nifer y profion anadl wnaeth ddangos bod gyrwyr ceir dros y terfyn cyfreithlon, yn ystod ymgyrch y Nadolig. Mae hynny'n unol gyda'r newidiadau a welwyd gyda'r pandemig a'r diwydiant lletygarwch. Fodd bynnag, mae lefel y profion cadarnhaol am gyffuriau ar adeg arestio yn parhau'r un peth ag yn ystod ymgyrch y flwyddyn gynharach. Mae cydberthynas bendant rhwng y digwyddiadau o stopio, gan Uned Plismona'r Ffyrdd a'r tîm rhwystro, am 'fethu prawf 'swipe' cyffuriau' â'r grwpiau troseddu cyfundrefnol / pobl adnabyddus Llinellau Cyffuriau. Mae gwaith yn mynd ymlaen yn awr i dargedu'r bobl adnabyddus hyn trwy'r broses dasgio a phroses newydd o haenau.

Mae'r ffigyrau ar gyfer gwrthdrawiadau difrifol/ angheuol yn parhau i fod yn sefydlog. Gyda'r niferoedd anferth o ymwelwyr ddaeth i mewn i'r ardal yn ystod yr wythnosau diwethaf, roedd bron yn anorfod y byddai cynnydd yn digwydd yn y gwrthdrawiadau difrifol, yn cynnwys marwolaethau. Mae Heddlu Gogledd Cymru'n parhau i fynd i'r afael a'r 'pum perygl mwyaf' gan ddefnyddio ymgyrchoedd ar sail gwybodaeth. Mae hynny'n cynnwys Ymgyrch Darwen, sy'n taclo gwrthdrawiadau beiciau modur mewn ardaloedd trefol a gwledig, ac mae gwaith gorfodi yn llwyddo i daclo'r gyrru ar gyflymder uchel. Roedd cynnydd bychan y flwyddyn ddiwethaf yn nifer y gwrthdrawiadau angheuol [o 18 i 19]. Mae'n anodd gwneud unrhyw wir gymhariaeth gyda'r flwyddyn cynt, 2019, oherwydd y newidiadau o ganlyniad i'r Pandemig.

## Hanes Olivia

Ym Mehefin 2019 deliodd Heddlu Gogledd Cymru gyda gwrthdrawiad angheuol yn cynnwys tri cherbyd, gyda dau o'r rheiny'n cael eu gyrru gan bobl ifanc 17 i 25 mlwydd oed. Roedd gyrrwr un o'r cerbydau'n 17 oed a dim ond wedi pasio ei brawf gyrru ers ychydig. Roedd ef i fod i gael gosod 'blwch du' ar y cerbyd, ac yn defnyddio'r cyfle i rasio cyn cael hwnnw. Collodd reolaeth ar y cerbyd a tharo un arall oedd yn teithio i'r cyfeiriad gwahanol. Roedd Olivia'n teithio yn y cerbyd hwnnw, a chafodd ei lladd, a hithau yn 17 oed; cafodd nifer o unigolion eraill eu cludo mewn hofrennydd i Stoke o ganlyniad i'r gwrthdrawiad hwn. Mae trafodaethau wedi bod yn digwydd gyda rhieni Olivia ynglŷn â datblygu mewnbwn Diogelwch y Ffordd i'w gyflwyno mewn ysgolion. Mae teulu Olivia'n gwbl gefnogol i'r syniad o atal y fath wrthdrawiad rhag digwydd eto, fel rhan o etifeddiaeth Olivia. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi gweithio i sicrhau arian oddi wrth nifer o bartneriaid ac mae cynlluniau'n dod ymlaen i roi hyn ar waith.

## Uned Drôn Heddlu Gogledd Cymru - y newyddion diweddaraf am Berfformiad a Gweithrediad:

Rwyf wedi cefnogi Heddlu Gogledd Cymru i ddechrau defnyddio uned drôn wedi'i neilltuo'n benodol. Mae'r tîm wedi bod yn gweithredu ers 1 Ebrill 2021, gyda'u canolfannau yn Llandegai a Llai. Mae hynny'n rhoi cymaint o ddarpariaeth ag y bo modd ar draws ardal y llu, yn defnyddio eu cerbydau ymateb arbennig a chael mynediad rhwydd o'r mannau hynny i'r prif ffyrdd.

Ymatebodd yr uned drôn i dros 300 o alwadau am wasanaeth yn ystod y ddau fis cyntaf yn unig, gyda 214 o'r digwyddiadau hynny yn ddeinamig a'r gweddill yn ymateb wedi'i gynllunio ymlaen llaw. Mae'r uned wedi bod yn uniongyrchol gyfrifol am achub un bywyd, ar ôl canfod person risg uchel oedd ar goll ac wedi neidio oddi ar glogwyn a chael anafiadau oedd yn peryglu bywyd. Mae'r tîm wedi defnyddio eu hoffer i ganfod nifer o bobl risg uchel oedd ar goll, a throseddwyr oedd yn ceisio dianc oddi wrth swyddogion. Cafodd y tîm hefyd lwyddiant mawr gyda gwaith oedd wedi'i gynllunio ymlaen llaw, gydag un o'r rheiny'n darganfod lleoliad yn tyfu canabis gwerth £1.5 miliwn. Ar ben hynny, bu'r tîm yn cefnogi gwaith y gwasanaeth Achub Mynydd i leihau'n sylweddol yr amser a'r adnoddau roedd eu hangen i ganfod a chyrraedd rhywun oedd angen cymorth. Bu hefyd yn rhoi cefnogaeth amhrisiadwy i Wasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru trwy ddarparu golwg o'r awyr ar dân oedd yn rhedeg yn wyllt, i weld lle gallai fod risgiau i bobl ac eiddo.





# CRYNODEB O GANLYNIADAU

Mae perfformiad yn cael ei fesur trwy gymharu 2020/21 yn erbyn y flwyddyn flaenorol (oni nodir yn wahanol) er mwyn adnabod unrhyw feysydd o bryder, sydd hefyd yn fy nghynorthwyo i gyflawni fy ngwaith craffu ar y Prif Gwnstabl a'i ddal yn atebol wrth gyflawni fy Nghynllun.

## Cam-drin Domestig


### Prif bwyntiau

- Yn gyffredinol mae digwyddiadau o Gam-drin Domestig wedi aros yn sefydlog o flwyddyn i flwyddyn; fodd bynnag, mae troseddau Cam-drin Domestig wedi cynyddu yn y cyfnod hwn tra bod digwyddiadau heblaw troseddau wedi parhau i ostwng. Mae'r cynnydd mewn troseddau Cam-drin Domestig wedi'i yrru gan gynnydd sylweddol yn y troseddau ychwanegol a gofnodwyd, oedd 49.9% yn uwch yn y flwyddyn gyfredol o'i gymharu â 2019/20. Mae digwyddiadau Cam-drin Domestig Sylfaenol hefyd wedi cynyddu 3.5% yn y flwyddyn gyfredol.
- *Gwelwyd cynnydd o ddechrau 2020/21 mewn digwyddiadau o Gam-drin Domestig sylfaenol a throseddau ychwanegol. Yn fwy diweddar, mae troseddau sylfaenol wedi sefydlogi tra bod troseddau ychwanegol wedi parhau i godi. Mae troseddau ychwanegol yn y flwyddyn gyfredol bellach yn cyfrif am 20% o'r holl droseddau Cam-drin Domestig, cynnydd o 15% ar y flwyddyn flaenorol.
- Mae pob ardal wedi cofnodi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn mewn troseddau cam-drin domestig, gyda'r cynnydd canrannol mwyaf i'w weld yn yr Ardaloedd Dwyreiniol a Chanolog.
- Mae mwyafrif y categorïau troseddau wedi gweld cyfeintiau is neu ddim newid yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda stelcian/aflonyddu, trais heb anaf a throseddau heb ddioddefwyr yn eithriadau trawiadol, gan gydgrynhoi i gynnydd cyffredinol mewn troseddau cam-drin domestig.
- Mae'r gyfradd ganlyniadau 1-8 wedi gweld lleihad yn y flwyddyn gyfredol, gyda'r mwyafrif o fisoedd ers haf 2020 yn gweld cyfraddau canlyniadau is na'r cyfartaledd blynyddol.
- Mae boddhad dioddefwyr ymhlith dioddefwyr cam-drin domestig yn cymharu'n ffafriol â mathau eraill o droseddau, yn enwedig gyda'r camau cychwynnol a gymerwyd a'r profiad cyffredinol. Er nad yw data o'r arolygon a gwblhawyd eleni, pan nad oedd cyfnodau clo cenedlaethol yn weithredol, yn amlygu unrhyw newidiadau sylweddol yn y boddhad cyffredinol. Nid oes unrhyw arolygon wedi'u cwblhau ers yr adroddiad diwethaf gan fod cyfweliadau wedi'u hatal yn ystod cyfnod clo diweddaraf COVID19.
- Bu cynnydd diweddar mewn troseddwyr mynych ac erledigaeth – yn flaenorol, roedd y ddau wedi bod yn dangos gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn; fodd bynnag, mae dioddefwyr a throseddwyr bellach wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn yn dilyn codiadau dros chwarter olaf 2020/21.


***Beth yw troseddau sylfaenol a throseddau ychwanegol?**

Pan fydd trosedd yn cael ei riportio, gall y sawl sy'n cymryd yr alwad adnabod bod troseddau pellach wedi digwydd yn ddiweddar, neu er bod un digwyddiad yn cael ei riportio ei fod mewn gwirionedd yn droseddau lluosog. Yn ogystal, yn ystod yr ymchwiliad gall troseddau hanesyddol pellach ddod i'r amlwg a fydd yn cael eu cofnodi fel troseddau ychwanegol. Felly o ganlyniad i un adroddiad am drosedd, y gellid ei alw'n drosedd sylfaenol neu'r brif drosedd yr adroddwyd amdani, gellir cofnodi nifer o droseddau ychwanegol pellach o ganlyniad. Er gwaethaf cael eu galw'n droseddau ychwanegol, nid ydynt yn llai o drosedd na'r troseddau cyntaf yr adroddwyd arnynt ac ymchwilir iddynt ar yr un raddfa â phe baent yn cael eu riportio ar wahân. Asesir heddluoedd gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) ar ba mor effeithiol y mae'r troseddau ychwanegol hyn yn cael eu cofnodi fel rhan o archwiliadau cywirdeb data troseddau, gan ei bod yn bosibl i heddluoedd fethu â chofnodi'r troseddau ychwanegol hyn oni bai bod prosesau trylwyr ar waith.

## Digwyddiadau Misol Cam-drin Domestig




## Maint Troseddau Cam-drin Domestig yn ôl Grŵp Trosedd




## Cyfradd Canlyniadau 1-8 Troseddau Cam-drin Domestig

| Adran | Ardal | Riportiwyd yn y Flwyddyn Hyd Yma | Riportiwyd y Llynedd Hyd Yma | % Newid | Cyfradd Canlyniad 1-8 yn y Flwyddyn Hyd Yma | Cyfradd Canlyniad 1-8 y Llynedd Hyd Yma | Newid pp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewinol | YM | 938 | 883 | 6.2% | 11.7% | 9.4% | 2.3 |
| | GN | 939 | 920 | 2.1% | 10.4% | 16.2% | -5.8 |
| | GS | 626 | 554 | 13.0% | 10.7% | 14.6% | -3.9 |
| Canolog | WC | 1,669 | 1,404 | 18.9% | 6.3% | 8.4% | -2.1 |
| | DC | 1,928 | 1,840 | 4.8% | 7.6% | 6.2% | 1.4 |
| | CR | 660 | 582 | 13.4% | 6.4% | 8.8% | -2.4 |
| Dwyreiniol | FN | 1,474 | 1,315 | 12.1% | 9.2% | 10.4% | -1.2 |
| | FS | 1,002 | 801 | 25.1% | 8.3% | 8.4% | -0.1 |
| | WR | 1,411 | 1,256 | 12.3% | 11.1% | 10.5% | 0.5 |
| | WX | 1,102 | 1,044 | 5.6% | 9.3% | 10.4% | -1.1 |
| **Cyfanswm** | | **11,749** | **10,599** | **10.9%** | **8.9%** | **9.8%** | **-0.9** |

Mae'r gyfradd canlyniad 1-8 yr heddlu wedi bod yn gyffredinol is na'r cyfartaledd ers mis Gorffennaf 2020, gyda'r mwyafrif o fisoedd yn disgyn yn is na'r cymedr blynyddol ers yr haf. Gwellodd y gyfradd ym mis Mawrth o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, gyda'r gyfradd fisol yn codi uwchlaw'r cyfartaledd am y tro cyntaf ers mis Hydref.

## Erledigaeth Ailadroddus Cam-drin Domestig

Mae erledigaeth ailadroddus Cam-drin Domestig wedi cynyddu yn y flwyddyn hyd yma, wedi'i yrru gan gynnydd yn chwarter olaf 2020/21.

Yn ystod y chwarter diwethaf, bu cynnydd yn nifer y dioddefwyr erledigaeth ailadroddus. Mae pob adran bellach wedi cofnodi cynnydd o flwyddyn i flwyddyn. Mae dioddefwyr erledigaeth ailadroddus yr Ardal Orllewinol wedi cynyddu 17.9% o flwyddyn i flwyddyn, gyda phob ardal yn cofnodi cyfeintiau uwch, yn enwedig De Gwynedd (+61.8%). Mae Canol wedi gweld cynnydd o 9.9% yn nifer y dioddefwyr erledigaeth ailadroddus, wedi'i yrru gan niferoedd uwch yng Ngorllewin Conwy ac Arfordir Dinbych. Mae'r Ardal Ddwyreiniol wedi cofnodi'r cynnydd lleiaf o flwyddyn i flwyddyn (4.0%). Mae ardaloedd Sir y Fflint wedi cofnodi niferoedd uwch o ddioddefwyr ailadroddus, yn enwedig De Sir y Fflint (21.3%). Fodd bynnag, mae erledigaeth ailadroddus wedi lleihau yn Wrecsam dros y 12 mis diwethaf.

### Dioddefwyr Erledigaeth Ailadroddus Cam-drin Domestig yn ôl Ardal ac Adran

| Ardal | 12 mis i wthns 2020/52 | 12 mis i wthns 2019/52 | Newid o flwyddyn i flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Ynys Môn | 181 | 160 | 13.1% |
| Gogledd Gwynedd | 202 | 190 | 6.3% |
| De Gwynedd | 110 | 68 | 61.8% |
| Cyfanswm Gorllewinol | 493 | 418 | 17.9% |
| Arfordir Gorllewin Conwy | 443 | 381 | 16.3% |
| Arfordir Sir Ddinbych | 539 | 498 | 8.2% |
| Conwy a Sir Ddinbych Gwledig | 164 | 164 | 0.0% |
| Cyfanswm Canolog | 1,146 | 1,043 | 9.9% |
| Gogledd Sir y Fflint | 319 | 282 | 13.1% |
| De Sir y Fflint | 211 | 174 | 21.3% |
| Wrecsam Gwledig | 291 | 313 | -7.0% |
| Tref Wrecsam | 227 | 239 | -5.0% |
| Cyfanswm Dwyreiniol | 1,048 | 1,008 | 4.0% |
| **Cyfanswm HGC** | **2,687** | **2,469** | **8.8%** |

## A yw'r gwasanaeth a gynigir i ddioddefwyr yn cwrdd â'u hanghenion?

*** Ataliwyd arolygon boddhad Cam-drin Domestig yn dilyn cychwyn y cyfnod clo COVID19 ddiweddaraf ym mis Rhagfyr. Nid oes unrhyw arolygon pellach wedi'u cwblhau ers yr adroddiad diwethaf ***

Mae cyfraddau boddhad dioddefwyr domestig yn parhau i gymharu'n ffafriol o gymharu â dioddefwyr annomestig.

*Data'r arolwg ym mis Ionawr 2021. O'r 285 o bobl sydd wedi cymryd rhan yn yr arolwg yn ystod y 12 mis blaenorol:*

- roedd 91.4% yn fodlon gyda'r cyswllt cychwynnol (0.4% yn uwch na'r 12 mis blaenorol).
- roedd 93.4% yn fodlon gyda chamau cychwynnol yr heddlu (3.0% yn uwch na'r 12 mis blaenorol).
- roedd 92.3% yn fodlon gyda'r cyswllt â Swyddog Cam-drin Domestig (1.0% yn is na'r 12 mis blaenorol).
- roedd 71.7% yn fodlon gyda'r cyswllt dilynol (5.1% yn uwch na'r 12 mis blaenorol).
- roedd 87.0% yn fodlon yn gyffredinol (1.9% yn uwch na'r 12 mis blaenorol).

## Cam-drin Rhywiol

### Prif bwyntiau

Gwelwyd gostyngiad mewn Troseddau Rhywiol a Gofnodwyd ar ddechrau'r cyfnod clo, ond erbyn hyn ymddengys eu bod yn dychwelyd i lefelau blaenorol

### Trosolwg o Droseddau Rhywiol yn ôl adran, 12 mis hyd at Mawrth-21

| Adran | Ardal | Riportiwyd yn y Flwyddyn Hyd Yma | Riportiwyd y Llynedd Hyd Yma | % Newid | Cyfradd Canlyniad 1-8 yn y Flwyddyn Hyd Yma | Cyfradd Canlyniad 1-8 y Llynedd Hyd Yma | Newid pp |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gorllewinol | YM | 191 | 190 | 0.5% | 9.9% | 6.8% | 3.1 |
| | GN | 192 | 279 | -31.2% | 10.9% | 10.0% | 0.9 |
| | GS | 130 | 210 | -38.1% | 14.6% | 18.6% | -4.0 |
| Canolog | WC | 312 | 316 | -1.3% | 10.9% | 11.4% | -0.5 |
| | DC | 275 | 404 | -31.9% | 8.0% | 7.7% | 0.3 |
| | CR | 134 | 160 | -16.3% | 13.4% | 9.4% | 4.1 |
| Dwyreiniol | FN | 259 | 290 | -10.7% | 21.6% | 9.3% | 12.3 |
| | FS | 150 | 140 | 7.1% | 8.0% | 7.1% | 0.9 |
| | WR | 223 | 255 | -12.5% | 11.7% | 7.1% | 4.6 |
| | WX | 175 | 231 | -24.2% | 10.3% | 7.8% | 2.5 |
| **Cyfanswm** | | **2,041** | **2,475** | **-17.5%** | **12.0%** | **9.5%** | **2.5** |


- Gwelwyd gostyngiad mewn Troseddau Rhywiol a Gofnodwyd ar ddechrau'r cyfnod clo, ond erbyn hyn ymddengys eu bod yn dychwelyd i lefelau blaenorol
- Gwelwyd gostyngiad yn y rhan fwyaf o ardaloedd
- Mae cyflwyniadau gwybodaeth am Gam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CSE) a digwyddiadau o Gam-fanteisio Rhywiol ar Blant (CSE) wedi gostwng, o flwyddyn i flwyddyn
- Mae'r gyfradd canlyniad cadarnhaol ar gyfer troseddau rhywiol ar hyn o bryd yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol




## Yn genedlaethol, mae Heddlu Gogledd Cymru yn parhau i gofnodi'r nifer uchaf o Droseddau Rhywiol Eraill

Ar hyn o bryd mae Heddlu Gogledd Cymru yn safle 39 o 42 gwasnaeth Heddlu Cymru a Lloegr, o ran cofnodi'r nifer uchaf o Droseddau Rhywiol i bob 1000 o'r boblogaeth, o'i gymharu â safle 25 ar gyfer yr holl droseddau. Er gwaethaf hyn, mae HGC yn safle 9 o'r holl heddluoedd o ran gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn. Mae'r data'n cyfeirio at y flwyddyn hyd at fis Rhagfyr 2020.

### Troseddau Rhywiol – 12 mis hyd at Ionawr 2021, yn ôl ardal Heddlu*




### Troseddau Rhywiol newid o flwyddyn i flwyddyn – 12 mis hyd at Ionawr 2021, yn ôl ardal Heddlu*




Troseddau Rhywiol Eraill a Gofnodwyd yw'r cyfranwyr i'r safle yma; ar gyfer troseddau Trais Rhywiol, mae HGC yn safle 17 o ran pob 1000 o'r boblogaeth, ac yn safle 7 o ran gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn. Ar gyfer Troseddau Rhywiol Eraill, mae HGC yn safle 42 ar gyfer troseddau a gofnodwyd fesul 1000 o'r boblogaeth, a safle 11 ar gyfer gostyngiadau o flwyddyn i flwyddyn.

### A ydym yn diogelu dioddefwyr yn effeithiol?

**Mae cyflwyniadau gwybodaeth am CSE a digwyddiadau o CSE wedi gostwng, o flwyddyn i flwyddyn.**

Gwelwyd gostyngiad o flwyddyn i flwyddyn ar gyflwyniadau gwybodaeth am CSE. Ar gyfer y flwyddyn hyd yma (Ebrill 2020 i Fawrth 2021), cafwyd 1231 o gyflwyniadau, o'i gymharu â 1382 y llynedd (gostyngiad o 10.9%). Mae nifer misol y cyflwyniadau wedi bod yn gyson, ac yn cynyddu, yn ystod yr ychydig fisoedd diwethaf, yn lleihau ym mis Chwefror ond yn codi eto ym mis Mawrth.

## Cyflwyniadau gwybodaeth misol am CSE




Mae nifer y Digwyddiadau CSE wedi gostwng ychydig, o 57 ar gyfer y llynedd hyd yma (Ebrill-Mawrth), i 48 yn y flwyddyn hyd yma (gostyngiad o 15.8%).

## Caethwasiaeth Fodern

- Nid yw troseddau Caethwasiaeth Fodern a gofnodwyd o reidrwydd yn adlewyrchu nifer yr unigolion gafodd eu hadnabod fel dioddefwyr neu gyflawnwyr troseddau Caethwasiaeth Fodern
- Mae troseddau, ar y cyfan, yn cael eu dosbarthu fel troseddau Caethwasiaeth / Caethwasanaeth
- Mae'r Digwyddiadau wedi'u gwasgaru ar draws Heddlu Gogledd Cymru, gyda'r crynodiad uwch wedi symud i Orllewin Conwy
- Mae nifer y digwyddiadau Caethwasiaeth Fodern yn gostwng, o flwyddyn i flwyddyn
- Mae dioddefwyr â baneri Caethwasiaeth Fodern yn tueddu i fod o Ethnigrwydd Gwyn, yn Ddynion ac yn Oedolion
- Mae rhai dan amheuaeth â baneri Caethwasiaeth Fodern yn tueddu i fod o Ethnigrwydd Gwyn, yn Ddynion ac yn Oedolion
- Mae'r defnydd o Orchmynion Caethwasiaeth a Masnachu Pobl yn cynyddu




### Nid yw troseddau Caethwasiaeth Fodern a gofnodwyd o reidrwydd yn adlewyrchu nifer yr unigolion gafodd eu hadnabod fel dioddefwyr neu gyflawnwyr troseddau Caethwasiaeth Fodern

Yn ystod y 12 mis presennol, mae 84 o droseddau wedi'u dosbarthu fel troseddau Caethwasiaeth Fodern, sy'n ostyngiad o 2.3% ar y 12 mis blaenorol.

## Troseddau Caethwasiaeth Fodern a gofnodwyd

| Dosbarthiad y Swyddfa Gartref | 12 Mis Cyfredol | 12 Mis Blaenorol | % Newid |
|---|---|---|---|
| Trefnu neu hwyluso cludo rhywun arall gyda'r bwriad o gam-fanteisio | 2 | 5 | -60.0% |
| Cyflawni Trosedd heblaw herwgipio neu garcharu ar gam gyda'r bwriad o drefnu cludo gyda'r bwriad o gam-fanteisio | 1 | 0 | - |
| Methu â chydymffurfio â'r gofyniad i ddarparu enw a chyfeiriad o dan Ddeddf Caethwasiaeth Fodern 2015 Adran 30 (2) (b) a 30 (3) | 1 | 0 | - |
| Dal rhywun mewn caethwasiaeth neu gaethwasanaeth | 68 | 75 | -9.3% |
| Ei gwneud yn ofynnol i unigolyn gyflawni llafur trwy orfodaeth neu orfodol | 12 | 6 | 100.0% |
| **Cyfanswm** | **84** | **86** | **-2.3%** |

## Troseddu Caethwasiaeth Fodern Misol a Mecanweithiau Cyfeirio Cenedlaethol (NRM)



AAm y 12 mis cyfredol, cofnodwyd 97 o achosion o Gaethwasiaeth Fodern. Mae hwn yn ostyngiad o 34.5% o'i gymharu â'r 12 mis blaenorol. Mae nifer y dioddefwyr hefyd wedi gostwng o 123 yn ystod y 12 mis blaenorol, i 87 yn y 12 mis cyfredol; lleihad o 29.2%. Bu gostyngiad hefyd yn nifer y rhai Dan Amheuaeth a gofnodwyd, o 42 i 37 (lleihad o 11.9%).

Fodd bynnag, mae nifer yr unigolion sydd â fflag Caethwasiaeth Fodern (a gofnodwyd fel Dioddefwyr neu Dan Amheuaeth) yn llawer mwy na nifer y digwyddiadau neu'r troseddau a gofnodwyd fel Caethwasiaeth Fodern. Ar gyfer y 12 mis cyfredol, mae 202 o unigolion wedi'u hadnabod fel Dioddefwyr posib, a 231 fel rhai sydd Dan Amheuaeth posib.

Mae troseddau, ar y cyfan, yn cael eu dosbarthu fel troseddau Caethwasiaeth / Caethwasanaeth ar 81% o'r holl droseddau Caethwasiaeth Fodern. Fodd bynnag, pan ystyriwn yr unigolion sydd wedi'u cofnodi fel Dioddefwyr, a bod fflag Caethwasiaeth Fodern wedi'i dynodi i'r unigolion hynny, cyflawnwyd 598 o droseddau yn eu herbyn yn ystod y 12 mis diwethaf. O'r rhain, cofnodir 65.6% fel trais yn erbyn yr unigolyn (VAP), a chofnodir 10% fel Troseddau Rhywiol.

## Troseddu Cyfundrefnol

Mae natur troseddau cyfundrefnol yn golygu bod mesur meintiol yn llai cymwys ar gyfer y maes blaenoriaeth hwn. Fodd bynnag, mae tystiolaeth sylweddol bod Heddlu Gogledd Cymru, trwy gydol 2020/21, er gwaethaf yr heriau a wynebwyd yn sgil Covid-19, wedi parhau i dargedu ac amharu ar weithgareddau grwpiau troseddau cyfundrefnol ledled y rhanbarth.




Mae buddsoddiad cynyddol mewn adnoddau rhagweithiol dros y ddwy flynedd ddiwethaf a gweithio'n agos gyda Heddlu Glannau Merswy a'r Uned Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCU) wedi arwain at arestiadau sylweddol a chanlyniadau cadarnhaol. Rhoddir manylion isod o'r ymyriadau a'r llwyddiannau cadarnhaol y mae'r heddlu wedi'u cael yn ddiweddar a ddaeth â rhywfaint o gydnabyddiaeth gan lywodraeth genedlaethol gan yr Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Plismona.

- Ymgyrch Tide – Troseddau cyffuriau ledled Gogledd Cymru a Glannau Merswy. Arestiwyd 18 o droseddwyr, 146 mlynedd yn y carchar.
- Ymgyrch Apricate - Cyflenwi cyffuriau i Dde Gwynedd o Lannau Merswy. Ymgyrch ar y cyd rhwng Heddlu Gogledd Cymru a Heddlu Glannau Merswy. Cyhoeddwyd 15 gwarant gyda 10 troseddwr yn cael eu harestio. Ar hyn o bryd yn y broses o fynd trwy'r llysoedd.
- Ymgyrch Blue Lancelot – Grŵp Troseddau Cyfundrefnol Wrecsam sy'n cyflenwi cyffuriau ym Mharc Caia. Arestiwyd 23 o bobl a ddrwgdybir a'u cyhuddo o gynllwynio i gyflenwi cyffur dosbarth A. Hyd yma plediodd neu cafwyd 17 yn euog ac mae disgwyl i achos pellach gychwyn ar 21 Mehefin.
- Ymgyrch Blue Mammoth – Ymgyrch Diogelu Amlasiantaeth sy'n cynnwys plant sy'n cael eu cam-fanteisio i gyflenwi cyffuriau rheoledig yn ardal Ganol yr heddlu. Mae plant bellach yn destun ymyrraeth a chefnogaeth briodol gan bartneriaeth a llwyddwyd i darfu ar y rhwydwaith gyflenwi. Mae cais am Orchymyn Risg Masnachu Caethwasiaeth yn mynd trwy'r system llysoedd.
- Ymgyrch Blue Cobalt – Cyflenwi cyffuriau ar draws ardal yr heddlu. Arestiwyd 22 ac atafaelwyd dros £60K mewn arian parod. Mae'r holl brif droseddwyr wedi eu cadw yn y ddalfa. Yn y broses o fynd trwy'r llysoedd.
- Ymgyrch Blue Fedora – Grŵp Troseddau Cyfundrefnol lleol sy'n cyflenwi cyffuriau Dosbarth A yn ardal Wrecsam. Gwnaed 13 arést a phlediodd pawb yn euog - 50 mlynedd yn y carchar
- Ymgyrch Lily Wen Fach – Cyflenwi cyffuriau yn ardal y Rhyl (Llinellau Cyffuriau). Cymysgedd o droseddwyr lleol a throseddwyr Glannau Merswy. Arestiwyd 21, cafodd 8 troseddwr eu cadw yn y ddalfa ac mae pawb arall yn parhau ym mhroses y ddalfa.
- Ymgyrch Kyanite – Troseddau cyflenwi cyffuriau o Lannau Merswy i ardal Wrecsam. Arestiwyd 13, atafaelwyd 3kg o gyffur dosbarth A ynghyd â mwy na £50k mewn arian parod – yn y broses o fynd trwy'r llysoedd ar hyn o bryd.
- Ymgyrch Boltrope – Llinellau cyffuriau sy'n cael eu rhedeg gan unigolion o Lannau Merswy sy'n cyflenwi cyffuriau i ardal Glannau Dyfrdwy. Cafodd 4 eu harestio, 15 mlynedd yn y carchar.



## Cyflenwi Cymdogaethau Mwy Diogel

Mae'r holl fesurau ar gyfer cyflenwi cymdogaethau mwy diogel yn parhau i fod yn gadarnhaol ac yn sefydlog yn y tymor hir.

| Mesur | Ffynhonnell | 2019/20 | 2018/19 | Newid o flwyddyn i flwyddyn | Tuedd | Asesiad tymor byr | Asesiad tymor hir |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 01: % sy'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol | Arolwg hyder y cyhoedd | 86% | 85.1% | 0.9 pp | n/a | n/a | n/a |
| Mesur | Ffynhonnell | 12 mis at Maw 20 | 12 mis at Maw 19 | Newid o flwyddyn i flwyddyn | Tuedd 5 mlynedd | Asesiad tymor byr | Asesiad tymor hir |
| 02: Risg o drosedd bersonol | Arolwg trosedd yng Nghymru a Lloegr | 2.7% | 1.4% | 1.4 pp |  | O fewn yr ystod disgwyliedig | Yn gwella |
| 03: Risg o drosedd yn y cartref | Arolwg trosedd yng Nghymru a Lloegr | 5.8% | 4.9% | 0.9 pp |  | O fewn yr ystod disgwyliedig | Yn gwella |
| Mesur | Ffynhonnell | 12 mis at Tach 20 | 12 mis at Tach 19 | Newid o flwyddyn i flwyddyn | Tuedd 2 mlynedd | Asesiad tymor byr | Asesiad tymor hir |
| 04: Yr holl droseddau a gofnodwyd | RMS trwy BI Launchpad | 56,217 | 60,868 | -7.6% |  | O fewn yr ystod disgwyliedig | Yn gwella |
| Mesur | Ffynhonnell | 12 mis at wths 20/35 | 12 mis at wths 19/35 | Newid o flwyddyn i flwyddyn | Tuedd 6 mis | Asesiad tymor byr | Asesiad tymor hir |
| 05: Aildroseddwyr o'r holl droseddau | RMS trwy BI Launchpad | 1,176 | 1,173 | 0.3% |  | O fewn yr ystod disgwyliedig | Sefydlog |
| 06: Ailddioddefwyr o'r holl droseddau | RMS trwy BI Launchpad | 5,247 | 4,876 | 7.6% |  | O fewn yr ystod disgwyliedig | Sefydlog |

## Ymgysylltu Cymunedol


Mae Ymgysylltu â'r Gymuned yn parhau ar draws pob un o'r Ardaloedd gan gynnwys defnyddio ymgysylltu rhithiol oherwydd Covid gan gynnwys:

- Digwyddiadau Ymgysylltu BAME – Mae ardaloedd wedi gweithio gyda'r Tîm Cynrychiolaeth Gweithlu i gynnal ystod o ddigwyddiadau ymgysylltu â chymunedau BAME ledled y rhanbarth.
- Marchnad yr Wyddgrug – BBob yn ail ddydd Mercher mae gan staff o'r Tîm Diogelwch Ardal a Chymuned stondin i ymgysylltu â chymunedau a chynnig gwasanaethau cynghori ac atal.
- Y Gymuned Teithwyr – mae gwaith yn cael ei wneud gyda'r swyddog cyswllt teithwyr, y cydlynydd cydlyniant cymunedol a staff Tîm Plismona Cymdogaeth i sefydlu Hwb Addysg yn un o'r safle Teithwyr ynghyd â nifer o brosiectau eraill er mwyn helpu i wella ymgysylltiad â'r gymuned teithwyr.



- Pobl Ifanc - Disgwylir i raglen arloesol o batrolau ar y cyd rhwng swyddogion ymgysylltu ieuenctid a Heddlu Gogledd Cymru gychwyn ar draws Ynys Môn. Mae'r gwaith hwn yn ceisio sicrhau ymgysylltiad ystyrlon â phobl ifanc a helpu i adnabod cyfleoedd i ddargyfeirio pobl ifanc oddi wrth YGC a throseddu lefel isel.
- 'Eich Cymuned Eich Llais' - Mae ardaloedd wedi bod yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r cyfleoedd grant 'Eich Cymuned Eich Llais' gan ddarparu cyfle gwych i ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau cymunedol.

## Datrys Problemau




Mae'r siart yn dangos y math o Gynlluniau Datrys Problemau sydd wedi'u creu dros y flwyddyn ddiwethaf. Isod rhoddir ychydig o enghreifftiau:

- Person bregus a defnyddiwr cyffuriau yr oedd ei gyfeiriad yn cael ei ddefnyddio a'i gymryd drosodd gan Grŵp Troseddau Cyfundrefnol. Fel rhan o'r cynllun defnyddiwyd deddfwriaeth Caethwasiaeth Fodern, gweithdrefnau NRM a dull gweithredu mewn partneriaeth â BIPBC. Cafodd yr unigolyn ei ddiogelu, ei ailgartrefu a'i gyfeirio at raglen ddadwenwyno i gynorthwyo gyda defnyddio alcohol a chynorthwyodd SMS i sefydlogi meddyginiaeth.
- Cychwynnwyd ar gynllun Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau (POP) yn dilyn sawl achos o dwyll gwerth uchel yn ymwneud â gwestai a safleoedd busnes ledled y rhanbarth. Mae'r tîm wedi gweithio gyda swyddogion arweiniol NPCC y DU a sefydliadau ariannol gan arwain at newid cenedlaethol i brosesau a fydd yn helpu i atal dioddefwyr pellach.
- Cynllun POP mewn perthynas ag unigolyn sy'n achosi lefelau uchel o alw yn ymwneud ag YGC, trefn gyhoeddus, trais lefel isel a delio mewn cyffuriau. Arweiniodd cynllun amlasiantaeth gyda CNPT, IOM a'r tîm gadael gofal at ostyngiad o 16 digwyddiad mewn cyfnod o ddau fis i ddim digwyddiadau pellach.



## Ansawdd Gwasanaeth

### 12 mis hyd at Hydref 2020

- Mae canlyniadau'r arolwg dioddefwyr yn cwmpasu'r cyfnod clo cyntaf a'r cyfnod atal byr ac nid ydynt yn dangos unrhyw effaith sylweddol ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn ystod y cyfnod hwnnw
- • Mae boddhad dioddefwyr troseddau casineb yn parhau i fod yn destun sylw er bod lefelau wedi sefydlogi ac yn gwella mewn rhai meysydd
- Cynhaliwyd adolygiad dwfn o flwyddyn lawn o arolygon troseddau casineb a throseddau cysylltiedig ac mae'r canlyniadau'n cael eu hystyried gan grŵp ansawdd y gwasanaeth

| Mesur | 12 mis hyd at Tach-20 | 12 mis hyd at Tach-19 | Newid % |
|---|---|---|---|
| Rhwyddineb Cysylltu | 89.90% | 91.80% | -1.9 |
| Camau a Gymerwyd | 73.00% | 72.50% | 0.5 |
| Camau Dilynol | 63.20% | 66.80% | -3.6 |
| Triniaeth | 89.90% | 90.10% | -0.2 |
| **Profiad Llawn** | **78.50%** | **79.10%** | **-0.7** |

# ARIANNU A CHYLLID

## Cyllideb yr Heddlu

Fel Comisiynydd Heddlu a Throsedd, rwy'n gyfrifol am osod y gyllideb a ddarperir i'r Prif Gwnstabl ar gyfer cyflenwi plismona yng Ngogledd Cymru. Dyrannwyd cyllideb net o £161.220m i'r Prif Gwnstabl ar gyfer 2020/21. Defnyddiwyd y £2.556m arall ar gyfer fy Nghronfa Comisiynydd (sy'n ariannu mentrau fel diogelwch cymunedol, ymyrraeth cyffuriau a chyfiawnder ieuenctid) a hefyd ar gyfer costau fy swyddfa. Mae Prif Swyddog Cyllid Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu yn gweithio'n agos ond yn annibynnol gyda Chyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau Heddlu Gogledd Cymru i sicrhau rheolaeth a chynllunio ariannol effeithiol a chyflawni swyddogaeth Adran 151.

Er bod grantiau llywodraeth ganol, a bennwyd gan y Swyddfa Gartref, yn cyfrif am 48% o'r cyllid, ariannwyd 52% gan drethdalwyr lleol. Mae'r unig godiadau yn grantiau'r llywodraeth yn 2020/21 a 2021/22 yn ymwneud â grantiau unwaith ac am byth penodol sy'n ymwneud â delio â phandemig Covid, a chyllid ar gyfer y rhaglen genedlaethol i gael 20,000 yn fwy o swyddogion heddlu dros dair blynedd (Operation Uplift). O ystyried chwyddiant, mae sefyllfa sylfaenol setliad grant ariannol gwastad yn gyfystyr â thoriad mewn termau real.

Mae'r Datganiadau Cyfrifon ar gael ar fy ngwefan. Roedd blwyddyn ariannol 2020/21 yn heriol, gyda thoriadau pellach o £2.358m wedi'u cyflawni. Ynghyd â thoriadau o £2.902m i'w cyflawni yn 2021/22, ac o ystyried chwyddiant a phwysau eraill, mewn termau real mae'r gyllideb blismona yng Ngogledd Cymru ar hyn o bryd £38m yn llai nag ydoedd yn 2010/11.

Er gwaethaf y rhagolygon mwy cadarnhaol ers 2015, mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn heriol, ac ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn mae ansicrwydd sylweddol ynghylch cyllid ar gyfer 2022/23 a thu hwnt.

## Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd

Gosodwyd y gyllideb flynyddol ar gyfer 2020/21 ar £936,267, gyda'r gyllideb gomisiynu yn £1,619,919 yn ychwanegol. Yn ogystal, cafodd Grant Gwasanaethau Dioddefwyr gwerth £816,354 ei gweinyddu gan y Swyddfa ac mae'n gorff atebol ar gyfer grant VAWDASV o £465,312. Y Swyddfa hefyd yw'r corff atebol am y Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau, gan dderbyn £478,140 gan Wasanaeth Carchardai a Phrawf EM yn flynyddol tuag at y gost.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniodd y Swyddfa gyllid ychwanegol ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd yr effeithiwyd arnynt gan bandemig Covid-19. Roedd hyn yn cynnwys £316,774 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder a £308,000 ar gyfer VAWDASV. Llwyddodd y Comisiynydd hefyd i dderbyn cyllid Strydoedd Mwy Diogel ar gyfer Wrecsam a'r Rhyl, gyda gwerth cyfun o £1,067,000.

## Strategaeth Ystadau

Mae'r broses o roi Strategaeth Ystadau 2018-2028 ar waith yn parhau ac yn y pen draw bydd adeiladau sy'n cael eu tanddefnyddio yn cael eu datgomisiynu. Mae cyflwyno dyfeisiau wedi'u galluogi i gysylltu â'r rhyngrwyd i Swyddogion Heddlu a'r cynnydd mewn gweithio ystwyth ar draws yr Heddlu, wedi'i hwyluso gan raglen trawsnewid digidol uchelgeisiol yr Heddlu dan gadeiryddiaeth y Cyfarwyddwr Cyllid ac Adnoddau, yn darparu cyfleoedd pellach i ddefnyddio'r ystâd yn fwy effeithlon ac mewn ffyrdd gwahanol. Mae'r symudiad i weithio mwy ystwyth a mwy o bobl yn gallu gweithio gartref wedi'i gyflymu o ganlyniad i bandemig Covid-19, gyda thua 800 o unigolion bellach yn gweithio gartref yn rheolaidd, a bydd llawer ohonynt yn parhau i wneud hynny, hyd yn oed pan nad oes angen pellhau cymdeithasol mwyach. Bydd y gofod sy'n cael ei ryddhau fel hyn yn helpu i ddarparu lle i'r swyddogion ychwanegol sy'n deillio o Operation Uplift.

Mae buddsoddiad yn yr ystâd yn parhau. Mae gwaith moderneiddio sylweddol ar droed yng ngorsaf heddlu Pwllheli er mwyn sicrhau ei bod yn addas ar gyfer plismona modern. Mae yna gynigion hefyd i ddarparu gorsaf heddlu newydd yng Nghaergybi i gymryd lle'r adeilad sy'n heneiddio yng nghanol y dref.




## Rhagolygon Ariannol

Er y bu mwy o sicrwydd yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r sefyllfa wleidyddol bresennol yn golygu ei bod yn anodd rhagweld cyllid ar gyfer 2022/23 a blynyddoedd diweddarach. Mae'r grant a dderbyniwyd yn 2019/20 a 2020/21 i wneud iawn yn rhannol am gost ychwanegol pensiynau'r heddlu i'w dderbyn eto yn 2021/22; fodd bynnag, mae'r sefyllfa wrth symud ymlaen yn dal heb ei benderfynu.

Disgwylir y bydd disodli Airwave (system radio'r gwasanaeth brys) yn costio oddeutu £9m i Ogledd Cymru, gyda £8.2m o hyn wedi'i gynnwys yn y rhaglen gyfalaf yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn 2022/23. Er mwyn lleihau'r gofyniad benthyca yn y dyfodol ar gyfer y cynllun cenedlaethol hwn, mae'r gyllideb ar gyfer 2021/22 yn cynnwys cyfraniad o £0.75m i'r gronfa gyfalaf.

Mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith sylweddol ar ein trefniadau gweithio. I ddechrau dyrannwyd cyllid ar gyfer gwasanaethau a gomisiynwyd yn unig. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn cadarnhawyd cyllid i ad-dalu costau cyfarpar diogelu personol, ac ym mis Mawrth 2021 cadarnhawyd cyllid pellach ar gyfer costau cyffredinol oherwydd y pandemig. Er bod cyfanswm y grantiau Covid yn llai na'r costau cysylltiedig, serch hynny mae'r cyllid ychwanegol hwn i'w groesawu.

# COMISIYNU

## Y Gronfa Trosedd ac Anhrefn 2020-21

Nodir manylion y dosbarthiad cyllid ar gyfer y flwyddyn fel y'i rhennir fesul sefydliad isod;

| Derbynnydd | Pwrpas | Grant |
|---|---|---|
| DASU Gogledd Cymru Cyf | IDVA – Wrecsam a Sir y Fflint<br>IDVA – Sir Ddinbych a Chonwy | £13,744.63<br>£38,519.44 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | Cynllun Braenaru Merched | £178,248.50 |
| Checkpoint Cymru | Gweithgareddau Dargyfeiriol | £343,086.50 |
| Dechrau Newydd | Gweithgareddau Dargyfeiriol | £504.167.27 |
| Tîm Troseddu Ieuenctid Conwy a Sir Ddinbych | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £23,273.00<br>£20,384.00 |
| Tîm Troseddu Ieuenctid Gwynedd ac Ynys Môn | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £27,350.00<br>£16,464.00 |
| Tîm Troseddu Ieuenctid Wrecsam | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £22,510.00<br>£19,695.00 |
| Tîm Troseddu Ieuenctid Sir y Fflint | Gwaith Ieuenctid<br>Cynllun Strategol | £22,835.00<br>£15,029.00 |
| Taclo'r Taclau | Swydd Rheolwr Rhanbarthol | £15,000 |
| Cymorth Dioddefwyr | Gweithiwr Caethwasiaeth Fodern<br>Gweithiwr Achos Twyll | £38,376.00<br>£21,670.25 |
| Dewis Cymru | Ymyrraeth Cyflawnwyr Trais Domestig | £6,150.00 |
| Home – Start | Prosiect Ymateb Cyflym i gefnogi profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACE's) | £8,483.00 |
| Brake | Diogelwch Ffyrdd | £2,500.00 |
| **Cyfanswm** | | **£1,337,485.59** |

## Dechrau Newydd

Yn ystod 2019 cyflwynodd Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd ynghyd â Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EM dendr ar gyfer contract Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau newydd. Bu Kaleidoscope yn llwyddiannus yn y broses dendro a dyfarnwyd y contract iddynt a ddechreuodd ym mis Ebrill 2020 gyda'r nod o ymgysylltu â throseddwyr sy'n defnyddio sylweddau a'u cefnogi i leihau aildroseddu, gwella iechyd a gweithrediad cymdeithasol, ymgysylltu â chymorth amlasiantaeth a gwneud newidiadau ffordd o fyw cynaliadwy.

Mae ystafelloedd dalfa, llysoedd, swyddfeydd prawf a charchardai yn cynnig cyfleoedd allweddol i adnabod, hysbysu ac ymgysylltu â throseddwyr sy'n defnyddio sylweddau. Gall y rhain fod yn amgylcheddau heriol i ddarparu gwasanaethau triniaeth ynddynt, yn enwedig wrth ymgysylltu ag unigolion a allai fod yn arbennig o bryderus, drwgdybus a bregus. Nod cyffredinol y gwasanaeth yw darparu cefnogaeth integredig ddi-dor i droseddwyr sy'n defnyddio cyffuriau ac alcohol.

Mae'r gwaith hwn yn rhan o'm hymagwedd integredig i gefnogi cleientiaid trwy amrywiaeth o lwybrau atgyfeirio fel Checkpoint Cymru a'r Cynllun Braenaru Merched ynghyd â phartneriaid iechyd.

## Gronfa Gwasanaethau Dioddefwyr 2020/2021

Yn ogystal â'r Gronfa Diogelwch Cymunedol, rwy'n derbyn grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder bob blwyddyn i gomisiynu gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr. Yn ystod 2020/21 rwyf wedi comisiynu'r gwasanaethau canlynol;

- Y Ganolfan Cymorth Dioddefwyr
- Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig
- Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol

Mae pob un o'r gwasanaethau isod wedi gwella'r gofal a'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr troseddau ledled Gogledd Cymru.

| Derbynnydd | Pwrpas | Grant |
|---|---|---|
| DASU Gogledd Cymru Cyf | IDVA – Wrecsam a Sir y Fflint<br>IDVA – Sir Ddinbych a Chonwy<br>Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £148,620.62<br>£48,151.63<br>£115,948.00 |
| Grŵp Cynefin | IDVA – Gwynedd a Môn<br>Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth | £84,886.00<br>£73,534.80 |
| Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru (RASASC) | Cam-drin Plant yn Rhywiol<br>Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £39,000.00<br>£29,750.00 |
| Canolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) | Cam-drin Plant yn Rhywiol<br>ISVA – Rhanbarthol<br>ISVA – Ariannu Cymorth Trais Rhywiol | £17,000.00<br>£103,000.00<br>£33,296.00 |
| Cymorth Dioddefwyr | Canolfan Cymorth Dioddefwyr<br>Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £368,857.00<br>£4,762.08 |
| Cam-drin Domestig Aberconwy | Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £15,960.60 |
| Cymorth i Ferched Clwyd Alyn | Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £28,697.40 |
| Hafan Cymru | Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £3,530.00 |
| Canolfan Merched Gogledd Cymru | Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £14,842.00 |
| Cerrig Camu | Cyllid Covid 19 Y Weinyddiaeth Gyfiawnder | £29,750.00 |
| **Cyfanswm** | | **£1,159,586.13** |

## Ariannu Trais yn Erbyn Merched a Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) 20/21

| Derbynnydd | Pwrpas | Grant |
|---|---|---|
| Cam-drin Domestig Aberconwy | Cyllid Covid 19<br>Gwella Diogelwch<br>Gofyn a Gweithredu | £2,450.00<br>£2,500.00<br>£1,875.00 |
| Authentic Voices | Refeniw ar Sail Angen | £5,005.00 |
| BAWSO | Cyllid Covid 19<br>Gweithiwr Cymorth Plant a Phobl Ifanc<br>Refeniw ar Sail Angen<br>Gwella Diogelwch | £5,100.00<br>£3,100.00<br>£25,991.00<br>£2,500.00 |
| Dewis Cymru | Cyflawnwyr | £58,194.00 |
| Cymorth i Ferched Clwyd Alyn | Cyllid Covid 19<br>Refeniw ar Sail Angen<br>Gwella Diogelwch | £2,300.00<br>£1,119.00<br>£2,500.00 |
| DASU Gogledd Cymru Cyf | IDVA – Wrecsam a Sir y Fflint<br>IDVA – Sir Ddinbych a Chonwy<br>Gweithiwr Cymorth Plant a Phobl Ifanc<br>Cyllid Covid 19<br>Llety Gwasgaredig<br>Refeniw ar Sail Angen<br>Fideo Gynadledda<br>Gwella Diogelwch | £38,000.00<br>£87,981.18<br>£10,086.00<br>£16,600.00<br>£135,182.00<br>£92,251.00<br>£12,000.00<br>£12,500.00 |
| Cyngor Sir y Fflint | Tîm Rhanbarthol<br>Refeniw ar Sail Angen<br>Cyllid Cyfathrebu | £167,674.00<br>£1,250.00<br>£5,000.00 |
| Grŵp Cynefin | IDVA – Gwynedd a Môn<br>Cyllid Covid 19<br>Gweithiwr Cymorth Plant a Phobl Ifanc<br>Llety Gwasgaredig<br>Fideo Gynadledda<br>Siop-un-stop<br>Refeniw ar Sail Angen<br>Gwella Diogelwch | £58,462.00<br>£10,017.00<br>£3,582.00<br>£169,000.00<br>£51,000.00<br>£22,824.14<br>£52,427.00<br>£10,000.00 |
| Hafan Cymru | Refeniw ar Sail Angen<br>Gofyn a Gweithredu | £37,200.00<br>£250.00 |
| Ymgynghoriaeth Ymyrraeth | Cyflawnwyr<br>Refeniw ar Sail Angen | £15,000.00<br>£12,000.00 |
| Canolfan Gefnogi Trais a Cham-drin Rhywiol Gogledd Cymru (RASASC) | Cyllid Covid 19<br>Refeniw ar Sail Angen | £3,750.00<br>£30,000.00 |
| Safe Lives | Refeniw ar Sail Angen | £6,500.00 |
| Ganolfan Cyfeirio Ymosodiadau Rhywiol (SARC) | Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Rhywiol – Rhanbarthol | £31,000.00 |
| Cymorth Dioddefwyr | Refeniw ar Sail Angen | £7,335.00 |
| Cerrig Camu | Cyllid Covid 19<br>Refeniw ar Sail Angen | £3,750.00<br>£24,725.00 |
| **Cyfanswm** | | **£1,239,980.32** |

## Y Gronfa Ymyrraeth Gynnar

| Derbynnydd | Grant |
|---|---|
| **Home – Start Gweithiwr**<br>**Arweiniol Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod (ACE)** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£60,188.00**<br>CHTh Blwyddyn 1 - £24,188.50<br>CHTh Blwyddyn 2 - £24,914.00<br>**CHTh Blwyddyn 3 – £25,661.00** |
| **Hafal**<br>**Rhaglen Iechyd Meddwl Pobl Ifanc** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£227,100.00**<br>CHTh Blwyddyn 1 - £30,000.00<br>CHTh Blwyddyn 2 - £30,000.00<br>**CHTh Blwyddyn 3– £30,000.00** |
| **Grŵp Cynefin**<br>**Gweithiwr Cymorth Plant a Phobl Ifanc** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£84,168.68**<br>CHTh Blwyddyn 1 - £14,907.50<br>CHTh Blwyddyn 2 - £15,724.94<br>**CHTh Blwyddyn 3 – £16,582.78** |
| **Canolfan Merched Gogledd Cymru**<br>**Prosiect Ymyrraeth ACE** | Cyfanswm Cost y Prosiect - **£415,946.00**<br>CHTh Blwyddyn 1 - £15,900.00<br>CHTh Blwyddyn 2 - £33,490.00<br>**CHTh Blwyddyn 3 – £33,490.00** |
| **Cyfanswm** | Cyfanswm CHTh Blwyddyn 1 - £84,995.50<br>Cyfanswm CHTh Blwyddyn 2 - £104,128.94<br>**Cyfanswm CHTh Blwyddyn 3 - £105,733.78**<br>**Cyfanswm Cost – £294,898.22** |

## Strydoedd Mwy Diogel

- Yn gynnar yn 2020 gwahoddodd y Swyddfa Gartref gynigion am arian o'u Cronfa Strydoedd Mwy Diogel er mwyn helpu i wneud cymunedau'n fwy diogel a lleihau troseddau fel lladrad, byrgleriaeth ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.
- Gyda'i gilydd, cyflwynodd asiantaethau partner gan gynnwys fy swyddfa i, awdurdodau lleol, Heddlu Gogledd Cymru a Clwyd Alyn ddau gynnig am welliannau yng ngorllewin y Rhyl a Queensway yn Wrecsam.
- Roeddwn yn falch iawn bod y ddau gynnig yn llwyddiannus a dyrannwyd £550,000 a £517,000 i ni i wneud gwelliannau corfforol ac er mwn helpu i adeiladu ar yr ysbryd cymunedol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardaloedd hynny.
- Roedd y gwelliannau corfforol yn cynnwys Adnabod Rhifau Cerbydau yn Awtomatig (ANPR), goleuadau stryd gwell, uwchraddio rhai giatiau ali, cynyddu camerâu teledu cylch cyfyng, gwelliannau amgylcheddol, er mwyn gwella golwg a theimlad yr ardaloedd, a gwirfoddolwyr cymunedol i weithio ar gynnal ymddangosiad y gymdogaeth a diogelwch ei thrigolion.
- Defnyddiwyd yr arian hefyd i ddarparu cyngor lleol ar atal troseddau i drigolion, sefydlu cynlluniau Gwarchod Cymdogaeth a buddsoddi mewn system Rhybudd Cymdogaeth newydd.



- Wrth i'r prosiect ddirwyn i ben, mae mwyafrif y gwaith wedi'i gwblhau gyda'r gwaith yn dod i ben yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf. Er gwaethaf yr anawsterau a wynebwyd trwy weithio ar y prosiect trwy'r pandemig mae'r prosiect wedi bod yn llwyddiant ysgubol; mae partneriaid wedi cydweithio'n dda gan dynnu at ei gilydd i gyflawni gwelliannau sylweddol i ardaloedd y Rhyl a Pharc Caia mewn amserlen fer iawn.
- Mae ail gronfa Strydoedd Mwy Diogel wedi cael ei lansio gan y Swyddfa Gartref ac mae partneriaid wedi cyflwyno cynigion ar gyfer ardaloedd yng Ngwynedd a Chonwy. Disgwylir cyhoeddi'r cynigion llwyddiannus ddechrau mis Gorffennaf.



SWYDDFA **COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD** GOGLEDD CYMRU

OFFICE OF THE **POLICE & CRIME COMMISSIONER** NORTH WALES

@NorthWalesPCC

@NorthWalesPCC

northwalesopcc